

ECO'R WYDDFA

RHIF 368

GORFFENNAF/AWST

PRIS 50c



DATHLU MEWN DAU GAFFI

Roedd dydd Gwener y deuddegfed o Fehefin yn ddiwrnod arbennig yn hanes y fro. Yn ystod y bore, cynhaliwyd agoriad swyddogol Hafod Eryri; y caffi, y ganolfan ddehongli a'r adeilad uchaf yng Nghymru; prosiect a godwyd ar gost o £4 miliwn a dwy flynedd o waith adeiladu mewn tywydd echrydus am gyfnodau hir.

Cerddodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, o Ben Gorffwysfa i'r copa i gyflawni'r seremoni agoriadol, ac yr oedd nifer eraill o wahoddedigion ymhlith y dyrfa a fu'n

trosglwyddo'r cyfan i fan arbennig oedd yn disgwyl amdano yno gyda chysylltiad lloeren â'r stiwdio. A diolch i allu rhedeg mynyddoedd Dafydd, cawsoch chwithau, wylwyr rhaglenni S4C weld lluniau o'r agoriad swyddogol a chyfweliadau â rhai oedd yn bresennol ar y copa.

Yn hwyrach yr un diwrnod, daeth criw llai enwog i'r Caban

ym Mrynrefail i ddathlu lansio prosiect arall, na fu ffracsiwn mor gostus â Hafod Eryri, ond un y bu gweithio yr un mor galed ar gyfer ei gwblhau. A do, daeth y Gweinidog Diwylliant a Hamdden, Alun Ffred Jones, i gymryd rhan yn y dathlu. Cyngor Cymuned Llanddeiniolen oedd yn gyfrifol am y noson, a dyma benllanw gweithgaredd a fu'n freuddwyd

iddynt ers rhai blynyddoedd, sef cyhoeddi taflen wybodaeth am hanes, daearyddiaeth a diwylliant y plwyf, a hynny drwy gyfrwng teithiau cerdded ar hyd ei llwybrau cyhoeddus. A'r gŵr a fu'n gyfrifol am grynhoi'r cyfan at ei gilydd oedd Gareth Roberts, Gallt y Foel, dylunydd a ffotograffydd proffesiynol sy'n hanu o'r ardal. (mwy o hanes ar dudalen 10.)



ymgynnull ar y copa - yn eu mysg, Cadeirydd 'Eco'r Wyddfa', Geraint Elis, a'r ffotograffydd, Gwynhaf Hughes.

Roedd cyflwynwyr y gwahanol gwmnïau teledu yn baglu ar draws ei gilydd i geisio cael y straeon a'r lluniau gorau, a chafwyd sawl rhaglen deledu i ddathlu'r achlysur. Ac yr oedd un o hogia lleol Llanberis yn gyfrifol am wenu yn siŵr fod y ffilm ar gyfer rhaglenni *Wedi Tri* ac *Wedi Saith* yn cyrraedd y stiwdio mewn pryd. Gwaith Dafydd Williams oedd cyfarfod Gerallt Pennant a'r criw ffilmio ar gopa'r Wyddfa, ac yna rhedeg - ie, rhedeg gyda'r ffilm i lawr llwybr Rhyd-ddu er mwyn



Lansio Llwybrau Llanddeiniolen yn y Caban

CANRIF A DWY GORON

Ganrif union yn ôl daeth coron yr Eisteddfod Genedlaethol i fro'r 'Eco' pan enillodd W. J. Gruffudd o Fethel gyda'i bryddest 'Yr Arglwydd Rhys'. Eleni, bydd coron yr Eisteddfod Genedlaethol yn gadael bro'r 'Eco', ac yn cael ei chyflwyno i'r bardd buddugol am bryddest neu ddilyniant o gerddi ar y testun 'Yn y Gwaed'.

Cynllunydd a gwneuthurwr y goron cleni yw'r gemydd, Sarah Anderson, o'r Fachwen. Roedd dwy thema yn flacnllaw ym meddwl Sarah pan ddechreuodd

gynllunio'r goron: lleoliad y Bala yng nghanol mynyddoedd a pharhad yr iaith. Ceisiodd gyfuno'r themâu hyn yng nghynllun y goron fel cadwyn ddiddiwedd a pharhaol. Mae mynyddoedd ardal y Bala - Aran

Fawddwy, Aran Benllyn, Arenig Fawr, Arenig Fach a'r Berwyn yn cael blaenoriaeth, a mynyddoedd Eryri a Chader Idris ar yr ymylon ac yn y cefn. Mae'r deuddeg copa yn creu llinell â'r deuddeg o feini'r Orsedd.

Cof cynnar sydd gan Sarah o'r Eisteddfod yw clywed plant yn rhedeg yn ôl ac ymlaen yn y maes carafannau ar hyd y traciau metel; plant o bob cwr o Gymru yn siarad â'i gilydd yn Gymraeg, waeth be fo eu tafodiaith. Mae'r llinellau ar fynyddoedd y goron yn cynrychioli'r traciau metel hyn, a'r ffaith mai ar hydddynt y siaredir y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd y genedl.

Ac y mae cysylltiad lleol pellach ynglŷn â chystadleuaeth y goron, gan mai'r prifardd o Nant Peris, Dafydd John Pritchard, yw un o'r tri beirniad. Mae'n goron gwerth ei hennill. Tybed a ddaw'n ôl yma yn ystod wythnos gyntaf Awst?



Sarah Anderson wrth ei gwaith yn cynllunio'r Goron Genedlaethol.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 368
GORFFENNAF 2009**

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

YAUFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

V RHIFYN NESAF

**Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol**

NOS SUL AWST 24ain

**Oo gwelwch yn ddau
Baw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
NOS IAU Medi 3ydd

Dyddiad Gosod

**SUL AWST 30ain, 5 y prawn
Sefydliad Coffa Llanrug**

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mehefin	Sul 24 Awst	Sul 30 Awst	Iau 3 Medi	Llanrug	Goronwy Hughes	674839

Llythyrâu

Gallt y Foel
132 Ffordd Penrhos
Bangor

Annwyl Olygyddion
Buaswn yn hynod falch os y
gallwch gynnwys yr apeel isod
dros y Samariaid yn eich papur
bro. Rwyf yn Llywydd
'Cyfeillion y Samariaid' ar hyn o
bryd ac mae'r ganolfan ym
Mangor yn gwasanaethu
Gwynedd, Môn a Chonwy ac
yr ydym ni fel Cyfeillion yn
bodoli yn unig er mwyn codi
arian i'w cyhnal. Ein bwriad yw
lledu ymwybyddiaeth o'r
elusen hon dros yr ardal gyfan.
Yr eiddoch yn gywir
EMYR GRIFFITHS

RHODDION

£25; Myrddin Pritchard, 1
Ffordd Padarn, Llanberis: Er
cof am Mr Dennis Willimas,
gynt o 23 Stryd Fawr, Llanberis.
£10; Teulu Mrs Jane Jones, Peris
View, Llanberis; Teulu Mrs
Dwynwen M. Roberts, Rhianfa,
Llanberis; Mrs Joyce Jones, 27
Dôl Elidir, Llanberis; Wendy
Parry a'r teulu, Rhiwena, Nant y
Glyn, Llanrug, Llanrug; Er cof
am Mrs Jane Elizabeth Jones,
Hafan Elan, Llanrug; Dilys
Jones, 4 Brynhyfryd, Cwm y
Glo; Arvon Jones, 4 Llys y
Gwynt, Penisarwaun.
£5; Gwenda, 5 Stryd yr Wyddfa,
Llanberis; Cai Morgan, 34 Maes
Padarn, Llanberis; Dicnw,
Llanrug.
£3.50; Goronwy Owen
Porthcawl.

6 Hendurnpike, Tregarth, Bethesda, Gwynedd.LL57 4NN
Mehefin 22ain, 2009

Annwyl Olygydd,
Mewn ymgais i adfer gwyl Pesda Roc, mae dau gig yn cael eu
trefnu ym Methesda dros y haf: gig acwstig yn nhafarn y
Llangollen ym mis Gorffennaf, a gig yn y Clwb Rygbi ym mis
Awst. Bydd y ddau gig yn cael eu trefnu ar y cyd rhwng
Tabernacl Cyf a chriw o fyfyrwyr o Fethesda. Daeth y
myfyrwyr, sydd yn wreiddiol o Fethesda, at ei gilydd dros
wyliau'r Pasg i geisio ad-fywio'r arfer o gerddoriaeth byw yn
Nyffryn Ogwen. Penderfynodd y myfyrwyr drefnu gigiau ym
Methesda wedi iddynt ddychwelyd i'r Dyffryn dros wyliau'r
Dolig a sylweddoli bod prinder darpariaeth cerddoriaeth byw
yn yr ardal. Ffrwyth llafur y myfyrwyr yw dau gig sydd yn cael
eu cynnal dan yr enw **PESDA ROC BACH**. Bydd y gig cyntaf
yn cymryd lle yn nhafarn y Llangollen, Bethesda, ar Orffennaf
24ain. Bydd y gig yn rhad ac am ddim, gyda setiau acwstig gan
fandiau yn cynnwys Mr Huw a Jen Jeniro. Ar Awst 15fed, yn y
Clwb Rygbi ym Methesda, bydd yr ail gig yn cael ei gynnal
gyda Strydion, Cowbois Rhos Botwnnog, BOB ac Wyrlligys
yn perfformio. Y gobaith yw gallu cynyddu'r nifer o gigiau
sydd yn cael eu cynnal ym Methesda gan ddechrau gyda'r
gigiau haf yma yn y Llangollen a'r Clwb Rygbi. Bydd y gigiau
hyn yn sylfaen ar gyfer cynnal rhagor o gigiau dros y Dolig ac
y flwyddyn nesaf. Felly, dewch yn llw, mac croeso cynnes i
bawb! Llauer o ddiolch, Megan Jones

AM BYTH MEWN LLECHEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod.
Ceir y manylion drwy aanfon amlen gyda chyfeiriad a stamp
arni i'r Ysgrifennydd:

John. H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis, LL55 4LF
Ffôn: 01286 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd erbyn 31ain o Awst, 2009. Ni ystyrir
unrhyw gais a ddaw ar ôl y dyddiad cau penodedig.

APÊL DROS Y SAMARIAID

Os oes rhywun neu rhywrai
gyda diddordeb i gynnal
gweithgaredd yn yr ardal
yma er budd yr elusen
uchod, a wnewch chi
gysylltu gydag Emyr
Griffiths, Llywydd
Cyfeillion y Samariaid ar
(01248) 353454 er mwyn cael
sgwrs a mwy o fanylion.
Diolch yn fawr.

CYMHORTHYDD CYFNOD SYLFAEN

Mae Ysgol Bethel yn chwilio am
berson brwdfrydig ac
ymroddgar i weithio fel
Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen
llawn amser, i ddechrau Medi
1af. Mae'r gallu i gyfathrebu yn
y Gymraeg a'r Saesneg yn
hanfodol.
Ceisiadau, yn cynnwys CV, i'w
derbyn erbyn 12.00 brynhawn
Gwener, Gorffennaf 3ydd.
Am fwy o fanylion cysyllter a?
phennaeth yr ysgol, Mrs Nia
Guillemin ar 01248 670663

SWYDD ACHLYSUROL

Yn eisiau dyn neu ddynes i
gynnig gofal i fachgen 8 oed
ag anghenion arbennig. Ei
brif ddiddordebau yw nofio,
cerddoriaeth, darllen,
cyfrifiaduron ac ati. Oriau
gwaith hyd at 6 awr yr
wythnos ond gyda'r
posiblirwydd i'r oriau
gynyddu. Tâl o £9.00 yr awr
a chostau teithio. Lleoliad -
Caernarfon. Byddwch yn sicr
o fwynhau'r profiad!
Rhif cyswllt- Nia M. Evans
- 01286 674686

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Torri Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
GWBL YSWIRIEDIG

ANRHYDEDDAU AMRWYIOL O FEWN EIN BRO

Bownsio i'r llwyfan am y pumed tro



Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd, anrhydeddwyd un o awduron plant mwyaf toreithiog Cymru gyda Gwobr Tir na'n-Og – a hynny am y pumed tro.

Roedd llwyfan yr eisteddfod yn lle delfrydol i gyflwyno'r

anrhydedd, gan mai gwobr am ysgrifennu llyfr gogyfer â phlant cynradd enillodd Emily Huws o Gaethro. Dyma'r eildro i'r seremoni gael ei chynnal ar lwyfan eisteddfod yr Urdd.

Nofel am ferch un ar ddeg oed o'r enw Cadi yw 'Bownsio', sy'n ymdrin â gobeithion plentyn a realiti'r byd go iawn.

Mae'n delio â'r sioc a gaiff Cadi o sylweddoli nad yw ei mam wedi marw, a chaiff ei byd ei droi wyneb i waered.

Disgrifiwyd y nofel fel un sy'n torri tir newydd ar gyfer plant o'r oedran hwn.

Yn ogystal â'r anrhydedd, enillodd Emily Huws hefyd wobriannol o £1,000. Mae'r awdur eisoes wedi derbyn

Tlws Mary Vaughan Jones am ei chyfraniad i faes llyfrau darllen plant dros nifer helaeth o flynyddoedd.

URDDO 'HYFFORDDWR Y FLWYDDYN'



David a'i gyfar, Lisa, ar ôl derbyn y CBE ym Mhalas Buckingham.

Yn dilyn llwyddiant tîm beicio Prydain yn y Gemau Olympaidd diwethaf, cafodd eu hyfforddwr ei ddewis yn Hyfforddwr y Flwyddyn gan wylwyr teledu'r BBC. Bellach, mae'r hyfforddwr a fagwyd yng Nghlwt y Bont wedi derbyn y CBE, a daeth enw David Brailsford yn adnabyddus led-led y wlad, a hynny hyd yn oed oddi allan i'r byd reidio beics.

Mae erbyn hyn wedi cartrefu ger Nottingham, ac yn gyfarwyddwr perfformiad tîm beicio Prydain. Bellach, mae hefyd wedi cychwyn ar ddyletswyddau newydd fel rheolwr Tîm Sky. Y bwriad yw sefydlu tîm o feicwyr Prydeinig fydd yn cystadlu'n broffesiynol mewn rasys yn Ewrop, a'r bwriad yn y pen draw yw cystadlu – ac ennill – y Tour de France.

Ondd bydd yn parhau i hyfforddi a hyrwyddo beicwyr Prydain ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. Bydd enw David Brailsford yn parhau'n amlwg dros y blynyddocdd nesaf. Llongyfarchiadau i'r cynbêldroediwr o dimau Llanberis a Llanrug sydd wedi cyrraedd y brig mewn chwaraeon sydd braidd yn ddiethr i drigolion y fro hon.

GWOBR AMGYLCHEDDOL CARBON ISEL

Dychmygwch gael aros yn un o gymoedd mwyaf rhamantus Cymru, gyda dim ond murmur afon a thrydar adar y gweundir i'ch suo i gysgu bob nos, a hynny ar ôl diwrnod o grwydro mynyddoedd godidocaf y wlad. A ble mae'r fath lecyn? Yma, ym mro'r 'Eco', mewn mangre na fu'r rhelyw o drigolion y fro ar ei gyfyl, siŵr gen i, sef perffedion Cwm Brwynog. Yno, yn swatio dan gysgod Moel Cynghorion, mae'r Helfa. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe'i hadnewyddwyd i'w gyflwr gwreiddiol, ond yn wahanol i'r hen amserau, mae bellach yn cael ei ynni o felin wynt wedi ei lleoli gerllaw. Daw dringwyr a cherddwyr mynyddoedd i aros yno o bedwar ban byd.

Eleni, enillodd y perchennog, Janc O'Donnell o Lanberis, disgynnydd un o deuluoedd gwreiddiol Cwm Brwynog, Wobr Cymdeithas Eryri. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Gymdeithas gyflwyno gwobrau i wahanol sefydliadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gwella eu busnes o ran effeithiau amgylcheddol. Gwobr Carbon Isel y Gymdeithas a enillodd Yr Helfa, a hynny oherwydd fod yr holl ynni ar gyfer cynnal yr adeilad yn dod o'r felin wynt.

O ddarllen hanes y gwobrau ar safle ger Gymdeithas Eryri, mae'r Helfa yn cael ei ddisgrifio fel 'bunkhouse', sef adeilad llawn gwelyau, gyda chegin i baratoi bwyd, a llefydd ymolchi. 'Hundy' neu 'farics' yw cynnig y gciriadur ar gyfieithiad o 'bunkhouse' ond



gwell gen i'r hen air cysurus hwnnw a arferir am wely, sef cando neu ciando. Felly,

llongyfarchiadau i Giando'r Helfa, a phob llwyddiant i'r dyfodol.

CNEIFIWR IFANC YW MYFYRIWR Y FLWYDDYN

Mae Gwyn Jones o Lanrug, disgybl yn Ysgol Brynrefail, wedi bod yn dilyn cwrs amaethyddiaeth yng Ngholeg Glynllifon, gan gael ei ryddhau o'r ysgol am ddiwrnod bob wythnos. Ar ddiwedd y tymor, daeth Gwyn i'r brig allan o dros gant o fyfyrwyr cyffelyb, gan ennill Tlws Myfyriwr y Flwyddyn mewn Amaethyddiaeth.

Yn ystod y mis teithiodd i fferm ym mhentref Darowen ger Machynlleth i gael profi ei allu fel cneifiwr. Roedd wedi cyrraedd y safon sylfaenol y llynedd, ond y tro hwn roedd yn ymgeisio am yr efydd.

Roedd angen iddo fodloni'r beirniaid ar safon ei gneifio a chneifio dwsin o ddcfaid mewn awr. Cwblhaodd ei dasg mewn tri chwarter awr. Yn anffodus, mae'n rhaid iddo ddisgwyl nes cyrraedd ei ben-blwydd yn ddwy ar bymtheg oed cyn y caiff ymgeisio am safon arian.

Bydd Gwyn yn cychwyn ar gwrs amaethyddiaeth llawn amser yng Nglynllifon ym mis Medi, ond pan alwodd gohebydd yr 'Eco' i gael sgwrs ag ef ynglŷn â'i obeithion, docdd o ddim adref – roedd wedi mynd i gneifio!



CHWILOTA

BRO'R 'ECO' GANRIF YN ÔL



Pan fo diffyg testun â gafael ynddo, neu destun â gormod o waith ymchwilio iddo, hawdd yw edrych i weld beth yn hollol a ddigwyddai yn y fro ganrif union yn ôl. Felly, y mis hwn, dyma gipolwg ar yr hyn ddigwyddai yn amryw o bentrefi'r fro yn ystod mis Mehefin 1909.

Wna i ddim manylu ar y marwolaethau, y bedyddiadau a'r priodasau, na chwaith ar y dymuno'n dda i rai oedd mewn gwaeledd neu wedi eu hanafu yn y chwarel. Roedd y math hwn o newyddion i'w gael bob wythnos bron - yn union fel 'Eco'r Wyddfa' a phob papur bro arall drwy Gymru ben-baladr! Dyma edrych felly ar ddigwyddiadau nad oeddynt yn gyffredin, er na ellir eu disgrifio yn anghyffredin chwaith.

Yn ystod amser cinio yn Sinc fawr, Hafod Owen, Chwarel Dinorwig, cynhaliwyd cyfarfod ffarwelio â Robert Roberts, Turner Street, Llanberis, a oedd ar fin ymadael am yr America am gyfnod o chwe mis i ymweld â'i berthnasau. Clywir yn aml am fyfyrwyr yn treulio y 'gap year' bondigrybwyll rhwng cyfnod coleg a gwaith, ond dyma chwarelwr cyffredin yn cael hanner blwyddyn o orffwys o'i waith i deithio i'r America! Rhywun o'r enw Ieuan Peris o Lanrug a roes yr anerchiad barddol, a chyflwynwyd Robert Roberts â llyfr emynau yn anrheg iddo ar ei daith.

Ar y llaw arall, ymfudo go iawn oedd hanes teuluoedd o ardal Dinorwig. Mewn un wythnos ar ddechrau Mehefin gadawodd William a Henry Jones, Tanygraig, Fachwen; Owen Griffith, Macpelah House ac Owen O. Ellis am yr America. Aeth dwy o wragedd y fro i'w

canlyn, sef gwraig y diweddar John W. Hughes, Pendyffryn a'i dau blentyn, a Miss Owen, Gallyfoel. Dyna fenter mewn gwraig weddw a chyfeilles ddibriad.

Ond mae'n amlwg fod ymfudo yn eithaf poblogaidd. Yn ystod wythnosau Mehefin roedd y wasg yn hysbysebu'r angen am 70 o chwarelwyr i ymfudo rhag blaen i Ganada.

Teithio'n ôl i Gymru oedd hanes y Parch W. Surdival, a fu'n pregethu yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Yn ôl yr adroddiad, roedd yn dychwelyd i fro ei febyd. Mae'r enw yn ddiethr, (neu wedi ei gamsillafu). Oes rhywun yn gwybod hanes y gweinidog hwn?

Roedd ffermwyr ardal Gwaun Gynfi hefyd yn cysgu'n dawelach yn ystod y mis pan ddaeth y newydd fod David Jones, Foel Rhiwen, 'gamekeeper' Stâd y Faenol, wedi lladd tri ar ddeg o lwynogod yn ystod dechrau'r mis.

Bu'n fis eithaf sych ar y cyfan, ac yr oedd cryn bryder mewn rhannau o'r Waunfawr am gyflenwad dŵr glân.

Adroddir fod trigolion y Teras (Pa deras o dai yn y pentref oedd hwn, tybed?) yn gorfod chwilio am ddigon o ddŵr o hen bydewau. Roedd y Cyngor Plwyf wedi bod yn pwyso ar i'r Cyngor Sir symud rhag blaen i geisio gwell cyflenwad i rannau o'r pentref.

Mewn cyfarfod yng Nghapel Hebron, Cwm Brwynog, roedd chwech a deugain o addolwyr yn bresennol, a chafwyd trafodaeth ar yr adnod 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Byddai unrhyw gapel yn y fro yn falch o gynullidfa mor sylweddol heddiw.

Wythnos yn ddiweddarach, roedd adroddiad am Deml Ddirwestol Llanberis yn cyfarfod yng Nghapel Gorffwysfa, ond ychydig oedd yn bresennol, ac mae'n ymddangos oddi wrth yr adroddiad nad oedd llawer yn mynychu'r deml arbennig hon. Mae'n amlwg nad oedd llawer o ddirwestwyr ymhlith aelodau eglwysig Llanberis!

Yn ystod y mis hefyd daeth y newyddion am farwolaeth un o blant Llanberis yn Newfoundland. Roedd Pierce Currie oddeutu saith deg oed ac yn fab i'r diweddar Charles Currie. Bu dau frawd iddo, sef Daniel a David, farw yn Newfoundland hefyd. Un yn unig o ddeg o blant oedd yn aros, sef Mrs Elisabeth Currie Williams, Gegin, Llwyn Celyn, Llanberis.

Ond pe bai'r 'Eco' yn bod ganrif yn ôl, mae'n siŵr mai'r hyn a haeddai'r dudalen flaen fyddai llwyddiant gŵr ifanc lleol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd y flwyddyn honno yn Llundain. Roedd cystadleuaeth y goron yn gofyn am bryddest ar y testun 'Yr Arglwydd Rhys'. Chwech yn unig oedd yn cystadlu, ac Elidir oedd yn llwyr deilyngu'r goron. W. J. Gruffudd, Bethel oedd hwnnw. Yn yr un eisteddfod, T. Gwyn Jones gipiodd y gadair gyda'i gerdd 'Gwlad y Bryniau'. Roedd W. J. Gruffudd yn fuddugol hefyd ar fyfyrtraeth - 'Goronwy Owen yn ffarwelio â Phrydain'. A daeth un arall o wobrau llenyddol yr eisteddfod i'r fro, gan i Alafon ennill ar y cywydd. Aeth trigolion Bethel ati i drefnu croeso arbennig i fardd y goron. Llogwyd cerbyd a dau geffyl i'w gyrchu o stesion Y Felinheli, a gorymdeithiwyd oddi yno yn ôl i Fethel dan arweiniad Seindorf Arian Llanrug.

Mwy am y Doctor o'r Nant Gyda diolch unwaith eto i Gwilym Roberts, Cerrig Drudion, Nant Peris, am anfon copi o erthygl a ymddangosodd yn Country Quest. Rhan o

ddyddiadur yn dyddio o fis Gorffennaf 1887 yw sail yr erthygl, ac mae'n sôn am wahanol brofiadau yn cerdded o amgylch gwahanol rannau o Eryri.

Mae'n amlwg i'r cwmni o ymwelwyr aros am ysbaid yn Bryn Glas, Nant Peris, ble cawsant laeth enwyn ac ychydig frechdanau gan hen wraig y tŷ. Mae Bryn Glas ar fryncyn uwchlaw Cae Gwyn, cartref teulu'r Lloyd Williams. Yna, daeth gŵr ifanc i fyni'r llwybr, a galwodd yr hen wraig arno, 'Doctor', cyn gofyn iddo roi cyfarwyddiadau i'r cwmni o deithwyr ar sut i gyrraedd y Twll Du. Tybed ai'r Doctor Richard Lloyd Williams oedd hwn?

Dywed Gwilym Roberts mai 'Hospital Orderly' yn Ysbyty Chwarel Dinorwig oedd Richard Lloyd Williams. Hyd yn hyn, does neb arall wedi cysylltu ynglŷn â'r teulu hwn o Nant Peris.

Dŵr Ffynnon

Cefais ddau ymateb i'r cais am wybodaeth ynglŷn â dŵr ffynnon yn parhau i gael ei ddefnyddio heddiw. Diolch i Neville Williams, Deiniolen, am ffonio, ac ymddiheuriadau am fethu â threfnu hyd yn hyn i ddod i weld y ffynnon sydd yng nghefn rhes tai Fictoria. Mae'n ymddangos fod gan y stryd hon eu ffynnon eu hunain, er eu bod wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith dŵr erbyn hyn. Mae Neville Williams yn cofio fel y byddai rhai o drigolion y tai yn glanhau cafn dŵr yn y cae tu cefn yn ystod y 1970'au. Mae'n debyg fod pibell o'r cafn i dapiau yng nghefn y stryd. Roedd y cafn yn cael ei lenwi â dŵr o ffynnon fymryn yn uwch ar y llethr.

Diolch hefyd i Sara Wood, Fron Heulog, Dinorwig, sy'n sôn am ffynnon yn yr ardal honno. Roedd mam y ddiweddar Mrs Nellie Valmai Pritchard yn mynnu cael dŵr ffynnon i'w yfed bob amser, a'i mab yng nghyfraith yn ei nôl yn ddyddiol iddi.

parhad ar dudalen 5



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dîo'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

 (01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



ARVONIA

CONCEPT RISM cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



V Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

Mae Sara hefyd yn cofio cyfnod yn ystod y 1980'au pan oedd rhyw nam ar y cyflenwad dŵr yn Ninorwig, a phawb yn gorfod berwi eu dŵr tap. Yn y cyfnod hwn, cafodd hi a'i theulu ganiatâd i ddefnyddio ffynnon Mrs Pritchard.

Roedd caead llechen i'r ffynnon, a'r dŵr yn cronni o fewn siambr garreg sgwâr.

Stemar Bach Sir Fôn

Tybed faint o bobl yr ardal sy'n dal i gofio y gwahanol gychod yn cario nwyddau a phobl yn ôl ac ymlaen o Fôn i Arfon? Mae Reg Chambers Jones o Gaethro yn awyddus i ddarganfod mwy am y fferiau hyn, ac yn enwedig o gael lluniau ac atgofion amdanynt. Anfonodd y llythyr hwn at ddarllenwyr yr 'Eco':

'Rwyf yn y broses o ysgrifennu hanes y fferiau a deithiai yn gyson hyd y 1950'au o Gaernarfon, Y Felinheli a Bangor i Fôn. Yn ogystal â chario teithwyr, roeddent hefyd yn cario anifeiliaid. Deuai Stemar bach Sir Fôn â nwyddau megis menyf, wyau a llefrith i'w gwerthu ym marchnad Caernarfon.

Hyd yn oed pan oeddwn yn ddisgybl yn yr hen 'Cownti Scwl' roedd bechgyn o Ddwyran a Brynsiencyn yn eu defnyddio i fynychu'r ysgol yn hytrach na theithio'r ffordd hir o amgylch Porthaethwy. Byddwn yn hynod ddiolchgar pe bawn yn cael y cyfle i wneud copiau o unrhyw ddeunydd yn ymwneud â'r fferiau, boed yn lluniau, tocynnau neu daflenni amser. Yn wir, mae gen i ddiddordeb mewn unrhyw ddefnydd yn ymwneud â'r Fenai yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Gorau oll os oes rhywrai'n fyw heddiw sy'n ofio defnyddio'r fferiau, yn enwedig rhai o bentrefi

Dwyran, Brynsiencyn a Niwbwrch.'
Gallwch gysylltu â Reg ar 01286 674382.

Mae cysylltiadau'r fferiau hyn yn rhan o hanes bro'r 'Eco' hefyd, wrth gwrs, gan fod nifer o chwarelwyr o'r rhan dde-orllewinol hon o Fôn yn defnyddio'r llongau bach i groesi i'r Felinheli cyn dal y trên chwarel ar fore Llun i gychwyn ar eu gwaith yn Ninorwig, a'u hwythnos o ddygymod â chwain y barics! 'For Freedom and Honour'

Yn dilyn yr hanes am Owen Davies, Tan y Coed, a'r fedal a dderbyniodd y teulu yn dilyn ei farwolaeth yn y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth galwad ffôn gan Myfi Evans, Gallt y Foel, yn dweud fod ganddi hithau hefyd fedal gyffelyb wedi ei gosod mewn plac, ac yn mesur tua 5 modfedd ar ei thraws. Mae'n coffau Abraham Hughes o'r Foel, Dinorwig, a oedd yn ewythr i'w mam. Fe'i lladdwyd yntau yn ystod mis Tachwedd olaf y rhyfel, ac yr oedd y newyddion am ddiwedd y rhyfel wedi cyrraedd Dinorwig cyn i'r teulu glywed am farwolaeth eu mab. Fe'i claddwyd mewn mynwent yng Ngwald Belg. Yn fuan wedi'r rhyfel, mudodd brawd iddo i'r America, sef Evan Hughes ac mae ei ddisgynyddion ef yn parhau mewn cysylltiad â'r teulu yng Nghymru. Mae ei enw hefyd wedi ei goffau ar gofeb yng Nghapel Sardis, Dinorwig.

A dyna'r cyfan am y deufis nesaf. Llawer o ddiolch i bawb a fu mewn cysylltiad ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro. Anfonwch unrhyw ymholiadau neu hanesion erbyn diwedd Awst i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).



Ar Ben Arall y Lein

Mis diwethaf y canŵs oedd y pennawd, a'r mis yma, wel y mater llawer mwy difrifol o'r algi gwyrddlas sydd wedi codi ei ben ar Lyn Padarn. Roedd arwyddion ar un cyfnod yn ystod Mehefin yn rhybuddio pawb i beidio â throchi na physgota, ac yn fwy na dim i beidio â bwyta pysgod o'r llyn.

Tydi Asiantaeth yr Amgylchedd yn dda 'dwch, yn cyhoeddi mai rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol yw'r algi 'ma ac i beidio â phoeni gan y bydd y peth yn diflannu yn naturiol pan wnaiff y tywydd oeri at ddiwedd yr haf.

Fel arfer yr amser yma o'r flwyddyn byddaf yn cael gohebiaeth o ran cwrteisi gan drefnwyr ras nofio Llyn Padarn.

Fy ateb y flwyddyn yma, oherwydd cyflwr y llyn oedd, bod defnydd o'n dyfroedd yn cael ei wneud ar yr amod fod pawb yn gwybod am y risg a bod dim cyfrifoldeb ar y clwb. Roedd yn dipyn o syndod i mi gael galwad ffôn yr wythnos yma gan un o'r trefnwyr o dros Glawdd Offa, fod popeth yn iawn rŵan gan fod yr algi wedi diflannu a'i bod yn iawn i nofio yno. Tipyn o syndod i mi gan fod y clwb yn berchen ar rannau helaeth o hawliau 'sgota Padarn, a does neb wedi rhoi y genadwri yma i'r clwb 'sgota. Dim ond criw lleol ydym ni, wrth gwrs, mae'n amlwg fod estroniaid yn llawer mwy pwysig! Rhag i chi gael yr argraff anghywir, nid Asiantaeth yr Amgylchedd roddodd y newyddion da yma i drefnwyr y nofio, ond Cyngor Gwynedd.

Gobeithio'n wir fod y newyddion yma yn gywir, gan fy mod wedi methu cael cadarnhad hyd yn hyn. Ond y cwestiwn i'w ofyn ydi, beth mewn gwirionedd sy'n mynd ymlaen? algi gwyrddlas, tydi peth fel hyn

ddim yn digwydd yn naturiol mewn llyn o ddyfnder Padarn, mae'n rhaid i elfennau eraill fod yn gyfrannol at y tyfiant.

Mae'n siŵr eich bod wedi dod i'r casgliad beth yw gwreiddyn y broblem erbyn hyn, mae'n fater rwyf wedi bod yn pregethu amdano ers blyneddau lawer, a hynny yw bod y llyn yn cael ei orlwytho â ffosffad. Ble mae hyn yn digwydd? Gwaith carthffos Llanberis yw'r ateb. Rwyf wedi parhau digon am hyn dros y degawd diwethaf ond mae'r datblygiadau diweddaraf yma yn ddifrifol.

Mae'r un peth wedi digwydd ar Lyn Tegid ac mae pob math o gynlluniau ar y gweill i wella'r sefyllfa yno. Y gwahaniaeth yn y Bala, wrth gwrs, yw fod y gymuned gyfan yn pwysu ar yr awdurdodau i weithredu. Yn anffodus, yn ei bro bach ni, yr unig rai sy'n ceisio codi stwr ydi'r 'sgotwrs. Mae gweddill y gymuned yn ddigon bodlon i dderbyn atebion gwag a diystyr yr awdurdodau.

Cawn weld felly be ddaw o hyn i gyd, ond mi fuasai tipyn o gefnogaeth yn mynd ymhell iawn. Oherwydd materion Padarn a'r dŵr isel, ychydig iawn o gerdded y glannau sydd wedi digwydd ar Padarn a'r Seiont. Ar lynnoedd Cwellyn, Dywarchen a Nantlle mae'r stori'n hollol wahanol. Rwyf newydd dderbyn adroddiad bod cynnydd sylweddol yng ngwerthiant tocynnau ar y dyfroedd yma eleni. Mwy yn cael eu gwyliau adref eleni, tybed? Efallai bod rhyw wirionedd yn hyn, ond rhaid dal sylw fod polisi stocio Dywarchen yn gwella yn flynyddol fel mae criw'r ddeorfa'n magu hyder a gweithredu ar eu profiadau. A bydd mwy o hyder eto at 2010 gan fod cynllun casglu grawn eog wedi ei gytuno yn barod gyda thrwyddedi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae'r gwaith o lanhau'r glannau yn cario 'mlaen, ond rhaid diolch i'r ychydig sydd wedi bod wrthi yn gwneud gwaith mor ardderchog ar y Llyfni. A hefyd, wrth gwrs, rhaid ymestyn yr un diolch i'r rhai sydd wrthi yr un mor ddiwyd hefyd ar y Seiont.

Mac tipyn o law yn disgyn heddiw, o'r diwedd. Gobeithio y bydd yn ddigon i godi lefelau'r afonydd gan y bydd y sewin, crbyn hyn, yn ysu at ddechrau ar eu taith. Efallai bydd rhyw ychydig o lwc i'w gael dros y dyddiau nesaf.

Hwyl am y tro,

Huw Price Hughes

Cofiwch gefnogi ein holl hysbysebwy



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholliau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRVNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

DINORWIG '69 COFIO'R CAU

**Amgueddfa Lechi Cymru yn coffáu 40 mlynedd
ers cau Chwarel Dinorwig.**

Bydd arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn coffáu 40 mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig ym 1969.

Bydd Dinorwig '69 - Cofio'r Cau, sy'n agor ar 1 Gorffennaf 2009, yn edrych ar rai o'r rhesymau dros y cau yn haf 1969 a'r effaith a gafodd hyn ar bentref Llanberis a'r gymdogaeth. Collodd 350 o ddynion eu gwaith ac yn sgil hyn newidiodd cymuned chwarelyddol a ffordd o fyw a oedd wedi bodoli ers y 1780au am byth.

'Byddwn yn ceisio rhoi hanes y cau yn ei gyd-destun,' eglurodd Dr Dafydd Roberts, ceidwad yr amgueddfa. 'Nid dathlu yr ydym. Rydym yn hytrach yn myfyrio ar y bennod bwysig hon mewn hanes ac yn edrych yn fwy manwl ar yr effaith a gafodd y cau ar y gymuned ac ar ei phobl.'

'Ganrif ynghynt, byddai cau'r chwarel wedi bod yn annirnadwy. Roedd Chwarel Dinorwig yn un o'r chwareli llechi mwyaf yn y byd - a, gyda Chwarel y Penrhyn ym Methesda, gallai gynhyrchu mwy o lechi toi mewn blwyddyn na'r holl chwareli llechi eraill yn y byd gyda'i gilydd. Cafodd y tawelwch dieithr a ddaeth i Ddinorwig ym mis Awst 1969 effaith enfawr a hirbarhaol ar yr ardal.'

Dechreuwyd cloddio am lechi ar raddfa helaeth yn Chwarel Dinorwig yn y 1780au, ac erbyn y 1890au roedd yn cyflogi dros 3,000 o ddynion a bechgyn ifanc fel chwarelwyr, prentisiaid, seiri coed, ffitwyr, fformyn a rheolwyr. Esgorodd y twf hwn ar rwydwaith o bentrefi - Llanberis, Deiniolen, Dinorwig, Cwm-y-glo, Llanrug,

Bethel, y Felinheli a'r Waunfawr - ac roedd y cyfan yn dibynnu ar y chwarel am gynhaliath ac yn eu tro yn darparu'r gweithlu medrus yr oedd ei angen i droi'r graig yn llechi toi.

Mae'r diwydiant llechi, fel nifer o ddiwydiannau mawr eraill, wedi wynebu anawsterau. Bu sawl streic yn Chwarel Dinorwig yn 1885 gyda'r cau allan, a dilynwyd hyn ym 1900 gan y Cau Allan yn Chwarel y Penrhyn, a ddatblygodd yn un o'r anghydfodau diwydiannol hwyaf mewn hanes.

Erbyn y 1960au, roedd y diwydiant llechi yn gyffredinol yn wynebu dyfodol mwy ansicr fyth. Nid oedd pethau wedi bod yn mynd yn dda ers nifer o flynyddoedd, ac ymddengys fod sawl rheswm dros gau Chwarel Dinorwig ym 1969.

Roedd llai o alw am lechi yn y DU yn ystod yr 20fed ganrif. Roedd llechi o Gymru yn ddrud o'u cymharu â theils a llechi toi o dramor, ac roedd perchnogion Chwarel Dinorwig a Chwarel y Penrhyn yn cystadlu â'i gilydd am gyfran o farchnad gymharol fychan.

'Mae'n ymddangos hefyd nad oedd Chwarel Dinorwig wedi cael ei datblygu'n effeithiol,' eglurodd Dafydd Roberts.

'Roeddynt wedi cloddio'r llechfaen mwyaf hygyrch erbyn y 1960au, ac roedd angen buddsoddi er mwyn datblygu ymhellach. Nid oedd gan y perchnogion yr arian i wneud hyn yn iawn. Un o'r camgymeriadau oedd buddsoddi'n helaeth yn Chwarel Marchlyn, ond nid oedd y rhan hwn o'r mynydd yn gwneud unrhyw arian. Nid oedd unrhyw lechfaen gwerth ei weithio

yno. Erbyn diwedd y 1960au, roedd y chwarel yn dibynnu ar archebion o Ffrainc i oroesi.

'Ym mis Gorffennaf 1969, daeth yr archebion hyn i ben. Dyma'r hoelen olaf yn yr arch. Pan gaeodd Chwarel Dinorwig - a oedd yn un o nifer helaeth o chwareli llechi i gau yn y 1960au - roedd hyn yn llawer mwy nac ergyd economaidd. Roedd ffordd o fyw yn wynebu dyfodol ansicr.'

Mae'r arddangosfa'n cynnwys mur o 350 o 'dalis' - sy'n cynrychioli'r sgwariau pres a ddefnyddid gan y chwarelwyr i ddangos eu bod yn y gwaith ond yn fan hyn yn arwyddocaol o faint o ddynion a golodd eu swyddi; y catalog arwerthiant gwreiddiol ar gyfer y Chwarel a gweithdai Gilfach Ddu; 'End of the Line', sef ffilm a wnaed gan y BBC ym 1969 adeg yr arwerthiant, sy'n dangos y gwrthrychau'n cael eu gwerthu ac hefyd amrywiaeth o storïau digidol gan bobl leol am eu hatgofion o'r cyfnod, a gynhyrchwyd gyda chymorth disgyblion o Ysgol Brynrefail.

'Drwy gyfrwng y storïau digidol hyn, rydym yn dod wyneb yn wyneb â gwahanol agweddau ar y cau,' eglurodd

Elen Roberts, Swyddog Addysg yn yr amgueddfa. 'Pethau fel yr effaith a gafwyd ar fsys Crosville a oedd wedi arfer cario cannoedd o ddynion i'r gwaith bob dydd, y gofid a deimlwyd gan fusnesau lleol gan nad oedd gan y dynion bellach arian i'w sbario, a phrofiad gwraig a oedd yn gweithio yn swyddfa'r cwmni llechi ... storïau personol sy'n rhoi cipolwg ar effaith cau diwydiant mor enfawr ar fywyd pob dydd.'

Bydd yr arddangosfa yn agor ym mis Gorffennaf a bydd i'w gweld drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Ionawr 2010.

Hefyd, cynhelir rhaglen o weithgareddau i gefnogi'r arddangosfa, gan gynnwys teithiau tywys drwy'r amgueddfa ci hun, diwrnod

rhannu gwybodaeth brynhawn Dydd Sadwrn 22 Awst, a chyngerdd coffa ysblennydd ar 22 Awst am 7.30 pm yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

'Bydd nifer o'n gweithgareddau yn canolbwyntio ar yr wythnosau olaf ym mis Awst,' meddai Elen. 'Derbyniodd y dynion lythyr gan Gwmni Chwarel Dinorwig yn eu hysbysu y byddai'r chwarel yn cau ar yr 22ain o Awst, ac roedd yn ymddangos yn briodol i ni felly ddefnyddio'r dyddiad hwn yn ganolbwynt ar gyfer ein digwyddiadau.'

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r arddangosfa neu weithgareddau eraill, cysylltwch â'r Amgueddfa ar 01286 870630.

DYDDIADUR DIGWYDDIADAU

1.7.2009 – 31.10.2010:
Arddangosfa: Dinorwig
'69: Cofio'r Cau

9.7.2009
Diwrnod Lawnsio
(4.30pm)

17,18,19.8.2009
Teithiau tywys i'r Chwarel
(17/18/19.8.09)

20 – 22.8.2009
Perfformiad drama
'Cofio'r Cau'

22.8.2009
Diwrnod Agored
(rhannu atgofion)
Cyngerdd Cofio'r Cau:
7.30pm Ysgol Brynrefail,
Llanrug

Yn ei hanterth, Chwarel Dinorwig oedd y chwarel fwyaf cynhyrchiol yng ngogledd Cymru ar ôl Chwarel y Penrhyn, a gallai gynhyrchu bron 90,000 tunnelli o lechi toi bob blwyddyn.


Roedd y Chwarel yn defnyddio system bonciau i gloddio am lechfaen, ac roedd y bonc uchaf un dros 670 metr uwchben lefel y môr.

Roedd gan y Chwarel y sied injanau uchaf ym Mhrydain.

Am y rhan fwyaf o'i hoes, roedd Chwarel Dinorwig yn eiddo i deulu Assheton Smith, a oedd yn byw yn Y Faenol.

O 1951 ymlaen, câi ei ei rhedeg gan gwmni atebolrwydd cyfyngedig.

Daeth adeiladau Gweithdai'r Gilfach Ddu yn amgueddfa yn 1972.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrohon Good:
Gatiau, Ffensws ac ati
am brisiau cystadlaol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

**Ffôn: (01206) 074103
(0589) 899901**

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

**Ffôn:
(01286) 673574**

PEN GIGYDDION Y FRO

Vr Wyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Gigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgast

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te
angladd
- Bwged Picnic
- Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon

Ffôn: 01286 673190

Symudol: 07774 925502

**Cofiwch gefnogi
ein holl
hysbysebwyd**

DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

CYMANFA. Cynhaliwyd Cymanfa Presbyteriaid Dosbarth Padarn yn Ebeneser bawn Sul, Mehefin 14 dan nawdd eglwys Cefnywaun. Dechreuwyd mewn gweddi a chroesawyd pawb i'r Gymanfa gan y Llywydd, Miss Marian Jones. Yna cyflwynodd plant Ysgol Sul Unedig Deiniolen eitem yn seiliedig ar ddameg yr heuwr. Yna cafwyd canu dan dan arweiniad Miss Gwenno Mererid Jones, Caernarfon, gyda Mrs Falmai Pritchard, Llanberis yn cyfeilio.

Cyflwynwyd gwobrau i'r plant o Ysgolion Sul Deiniolen, Llanberis a Bethel oedd wedi dysgu'r adnodau a'r penillion ar gyfer Arholiad y Gymanfa. Diolchwyd i'r arholwyr, Mrs Valerie Jones, Mrs Ann Parry a Mrs Nan Owen am wrando ar y plant y Sul blaenorol. Roedd y gwobrau yng ngofal Ysgrifenyddes y Gymanfa, Mrs Myfanwy Harper.

Cafwyd stori i'r plant gan Dafydd Pritchard, a'r neges wedi ei scilio ar yr adnod, "Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun". Gwnaed casgliad at waith y Gymanfa, a diolchwyd i bawb a gymerodd ran gan yr Ysgrifenyddes. Traddodwyd y Fendith gan y Gweinidog, y Parchg John Pritchard.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenlli a Teleri, Maes y Bryn, Pontrug, ddiolch o galon i bawb am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt tra buont yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PROFEDIGAETHAU Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at y teuluoedd sydd mewn galar yn dilyn colli anwyliad.

Dafydd Evans, Alun, Sioned a'r teulu oll, Gweledfa, yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl, Mrs Kath Evans.

Teulu'r diweddar Harry Trefor

Lewis, a fu farw yn Awstralia yn dilyn damwain yn ddiweddar. **GWELLHAD** **BUAN.** Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar. **PÊL-DROED.** Da iawn i holl enethod a bechgyn y pentref a'r ardal a fu'n cynrychioli Deiniolen mewn amrywiol gystadlaethau pêl-droed yn ddiweddar. Da iawn chi i gyd.



Cynan Morus Parri

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Cynan Morus Parri o Faes yr Ehedydd, ar ei fuddugoliaeth mewn cystadleuaeth Carate (unigol ac o fewn grŵp) o dan 9 oed yn ddiweddar.

Mae Cynan yn aelod brwd o glwb 'Zenashi Karate', Plas Ffranccon, Bethesda.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y Gymdeithas. Cyfarfu'r aelodau nos Iau, Mehefin 1leg yn y Caban. Cadeirydd y noson oedd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Roedd naws gerddorol i'r noson a seiliwyd y myfyrdod ar gyfeiriadau at foliant yn yr Ysgrythurau. Rhoddwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwadd, sef Gareth Jones, Llanberis, a rhoddodd arlwy ddiddorol i'r aelodau o'r cerddor David Lloyd dan y testun 'Tywysog y Tenoriaid'. Gwerthfawrogwyd ei sylwadau yn fawr a'r cyffyrddiadau lleol ynghyd ag enghreifftiau o'r llais unigryw.

Diolchwyd yn gynnes i Gareth gan y Cadeirydd a chafwyd gwerthfawrogiad pellach gan Dafydd Ellis a Gwyn Hefin Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 16eg yng nghwmni Elfyn Thomas o Gwmni Teithiau Seren Arian.

Y Cadeirydd fydd Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog.

OEDFAON GORFFENNAF

5: 10.00: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

12: 2.00: Parch. Emlyn Richards, Cemaes

19: 2.00: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

26: 5.30: Parch R. E. Hughes, Nefyn

PROFEDIGAETHAU. Gyda braw y deallwyd am ymadawiad Gaynor Jones yn 53 mlwydd oed, annwyl briod Meurig, Greuor Villa gynt, trwy ddamwain tra ar Ynys Malta. Roedd Gaynor yn nyrs gymeradwy ac ymroddgar

yn Ysbyty Gwynedd a gwelir ei cholli yn fawr. Rydym yn cydymdeimlo yn ddwys â Meurig ac â'i mab, Daniel, yn y brofedigaeth ddaeth i'w rhan mor ddisyfyd.

Chwith hefyd oedd gan lawer ohonom ddeall am farwolaeth Cyril Wyn Griffith, Ger y Nant, Waunfawr, yn 87 mlwydd oed. Bu yn fawr ei barch yn y pentref ynghyd â Reg King ac mae ein cydymdeimlad ag ef yn ei brofedigaeth - y ddau yn berchnogion y Swyddfa Bost am gyfnod helaeth. Roedd Wyn yn wreiddiol o Ddwyran, Ynys Môn ac wedi treulio blynyddoedd yn Llundain cyn dod i Frynrefail. Roedd yn amlwg wrth ei fodd yma gydol y blynyddoedd, yn datblygu'r busnes gyda nifer o syniadau newydd ac fe'i cofiwn yn arbennig fel gŵr bonheddig nodedig iawn a pharod ei gymwynas.

CABAN. Bydd caffi Caban yn dathlu ei bumed pen-blwydd yr haf eleni ac mae trefniadau ar y gweill i dathlu parti haf i bentref Brynrefail. Gwahoddwyd pawb i gyfarfod nos Fercher 10fed o Fehefin a daeth criw da ynghyd i rannu syniadau ar sut i ddathlu'r achlysur.

PLYGU'R ECO. Er i Gwyn Hefin Jones, y trefnydd, ofidio fod nifer o ffyddloniaid Plygu'r Eco yn methu bod yn bresennol ar y noson, yn rhyfeddol fe drodd allan griw niferus, mwy nag ers cyn cof, i gynorthwyo yn y gwaith yn awyrgylch hyfryd caffi'r Caban a gorffen y dasg mewn awr a hanner. Diolch i chwi i gyd, blant ac oedolion.

NANT PERIS

Geraint Elis, Cilgerran. Ffôn: (01286) 670726

CŴN DEFAID. Drwy gydol y flwyddyn 2008 bu pwyllgor Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch yn paratoi ar gyfer eu treialon ym mis Awst. Gyda'r cymorth a gafwyd gan y noddwyr a phobl leol, cafwyd dau ddiwrnod gwyh a naw deg

o gŵn yn cystadlu.

Yn gynnar yn 2009 penderfynwyd rhannu'r elw o'r treialon a chafwyd noson yn y Vaynol Arms i rannu'r arian i'r canlynol:

- Ambiwylans Awyr: £300
- Ty Gobaith: £300
- Adran Arennau Ysbyty Gwynedd: £100

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y trefnu, y cystadlu ac am y cymorth gan bobl leol.

Edrychwn ymlaen at ein treialon eleni ar 14 a 15 Awst ar gae Tir Coch, Nant Peris.



Cyflwyno sicciau

John C. Thomas

**SAER
COED**

**ARBENIGO
MEWN CEGINAU A
DODREFN CEGIN**

Saer Profiadol - Prisiau Teg
Ystyried pob math o waith

(01286) 872012
Symudol- 07790 083643

WYTHNOS CARNIFAL NANT PERIS

**Nos Lun, 20
Gorffennaf 2009**

Noson Cwis am 9.00 o'r
gloch yn Ty'n Llan.
Nos Wener, 24 Gorffennaf
Parêd y Carnifal yn
cychwyn am 6.30 o flaen
Bro Glyder.
Gwobr o £50 am y wisg
ffansi orau yn y sioe.

CROESO CYNNES I BAWB

O SLAMBAR SELWYN

Mi fyddai mam yn bygwth fy ngwerthu i'r sipsiwn pan fyddwn i'n dueddol o fynd dros ben llestri pan yn blentyn. Hefyd pan ddychwelwn i o Gors Tyddyn Bach neu Barc-y-Wern yn fwd o'm corryn i'm sawdl, ar ôl ceisio efelychu Frank Swift rhwng y cotiau pyst gôl. Geiria mam fyddai, 'Neno'r tad, hogyn, sbia golwg sy arnat ti. Rwyd ti'n waeth na hogyn sipsiwn.'

Do mi ges i a fy nghyfoedion ein perswadio i ofni'r sipsiwn. Argraffwyd ar ein meddyliau ifanc mai creadur budr a chreulon oedd pherchennog y garafan. Ond eto, mi genais innau gyda chenedlaethau o blant,

Hei Ho, Hei di Ho

Fi yw sipsi fach y fro,

Carafan mewn cwr o fynydd

Newid aelwyd bod yn eil-ddydd.

A Jôs Sgwîl yn ein hannog i wenu wrth ganu'r geiriau, 'Gwenwch wir, pobol hapus ydi'r sipsiwn, pobol sy'n mwynhau byw hefo natur. Pobol rydd.'

Ond er y rhamant a'r rhyddid a gysylltir â'r sipsiwn, tueddu i'w cadw nhw o hyd braich yr oeddan ni. Sefyll o bellter i edmygu'r garafan a'r ceffyl, ac i dosturio dros y plant bach parablus a charpiog a fyddai'n hongian wrth ddrws stabal eu cartref olwynog.

Wrth gwrs, does 'na ddim croeso i'r sipsiwn modern (y New Age Travellers) sy'n beiddgar hawlio ac yn difrodi tiroedd cefn gwlad yn achlysurol. Yn yr hen ddyddiau dywedir bod naw deg y cant o'r sipsiwn yn anllythrennog.

Heddiw mae 'na nifer helaeth o raddedigion ymysg y crwydriaid modern hyn sy'n achosi cymaint o drafferthion i ffermwyr.

Ys gwn i be fyddai barn Tywysog y Sipsiwn, Nathaniel Petulengro Lee ar y crwydriaid cyfoes? Roedd o yn arbenigwr ar ddeud ffortiwn. Roedd o yn medru bwrw melltith yn ogystal. Doedd ganddo fo ddim tystysgrif geni ysgrifenedig ar bapur. Na, roedd ei dystysgrif geni o wedi ei gerfio ar dderwen rhywle yn Sbaen, yn unol â hen draddodiad y sipsiwn.

Roedd o yn cofio gweld ei nain yn ei harch mewn gwisg flodeuog, gydag owns o faco a phibell mewn un llaw, a phacedd o snyff yn ei llaw arall - i'w helpu hi i fynd adre, a'r tylwyth teg yn canu ac yn dawnsio o gwmpas ei harch.

Petulengro hefyd oedd yn rhagweld y dydd pryd na fyddai ond UN tŷ yn sefyll yn ninas Llundain, ac ynddo UN

ferch naw oed, a'i mam. A'r fechan yn gofyn i'w mam, 'Mam, ga i fynd allan i chwarae?' a hithau yn ateb,

'Mechan i, does 'na neb ar ôl iti chwarae â nhw, does 'na ddim mwy o blant ar ôl. Dos allan iti gael gweld.'

Dychwelodd y fechan ymhen ychydig yn llawn cyffro, 'Mami, Mami,' meddai, 'rydw i wedi gweld dyn.'

Daeth gwên i wyneb ei mam a llawenydd i'w chalon oherwydd fod yna UN dyn, UN ddynes ac UN ferch fach yn fyw ar y llecyn lle bu Llundain ar ôl i fom atomig chwalu'r ddinas yn chwilfriw.

A wireddir y broffwydoliaeth ys gwn i? Pwy a wŷr?

Hen enw Beiblaidd ar y sipsiwn yw 'NOMADS' ac ystyr y gair yng Ngeiriadur Rhydychen ydi 'Member of a tribe, wanderer, roaming from pasture to pasture'. Ia, cwydro o borfa i borfa. Fe wyddom ni i gyd am y Wanderers o Bolton a Wolverhampton, yn ogystal â'r Rovers o Blackburn a Bristol. A chofiw'n hefyd am y Nomads o Gei Connah.

Y mis diwetha cyfeiriais at dimau pêl-droed a oedd â chysylltiad agos ag eglwysi, a phwy fyddai'n credu bod yna gysylltiad agos rhwng y sipsiwn hefyd â phêl-droed.

Oedd, roedd mam yn dewis ei geiriau yn ofalus pan ddychwelwn i o Barc-y-Wern neu Gors Tyddyn Bach yn gramen o fwd erstalwm. Dwi'n ei chlywed hi rŵan,

'Neno'r tad, hogyn, sbia golwg sy arnat ti. Rwyd ti'n waeth na hogyn sipsiwn.'

CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen, bnawn Sul, 14 Mehefin. Arweinydd y Gân oedd Miss Gwenno Jones, Caernarfon, a'r organyddes oedd Mrs Valmai Pritchard, Capel Coch. Llywydd y cyfarfod oedd Miss Marian Jones, Deiniolen, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth dechreuol gan aelodau Ysgol Sul Capel Ebenezer.

Gwobrwywyd y canlynol yn ystod y cyfarfod:

Dan 4 oed: Elan Haf Henderson, Llŷr Gwyn Jones, Erin Jones a Caio Thomas, Capel Coch; Cai Moss a Haf Mwyn Williams, Cysegr.

Dan 5 oed: Becca Morris, Deio Llwyd Roberts a Cadi Thomas, Capel Coch; Tomos William Jones, Elis Ifan Jones, Dylan Rhys Worsley ac Elan Fôn Davies, Cysegr.

Dan 6 oed: Ffion Wyn Jones a Megan Wyn Roberts, Capel Coch; Cai Llwyd Jones, Twm Henri Williams, Tomos

Siôn Morris, Heledd Prys Huws, Bedwyr Lewis Jones, Ioan Emyr Ifans, Siôn Lewis Jones, Celt Moss ac Ilan Gruffudd, Cysegr; Gwion Llewelyn Griffith, Alys Mair Jones, Jacob Bolton a Gemma Williams, Deiniolen.

Dan 7 oed: Elis Arddu Morris, Sara Fflur Henderson a Lowri Collins, Capel Coch; Ywain Emrys Jones, Gwenllian Dauncey Griffiths ac Owain Lewis Jones, Cysegr; Glain Hughes a Becca Medi Jones, Deiniolen.

Dan 8 oed: Aled Siôn Pritchard, Siôn Ifan Morris, Siôn Drummond, Iolo Llewelyn Roberts, Eban Jones a Thomas Collins, Capel Coch; Elan Jones, Cysegr.

Dan 9 oed: Alaw Meleri Henderson, Aron Jones a Ffion Williams, Capel Coch; Elen Haf

Gwyn Ifans, Cysegr; Prys Wyn Hughes, Deiniolen.

Dan 10 oed: Megan Pritchard, Elin Haf Roberts, Sara Rose Drummond a Catrin Williams, Capel Coch.

Dan 11 oed: Gethin Wyn Harper, Alaw Prys Huws, Elliw Lewis Jones, Cysegr; Catrin Gruffudd, Deiniolen.

Dan 12 oed: Gareth Wyn Pritchard, Capel Coch.

Carai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Ebenezer am eu cymorth parod yn trefnu'r Gymanfa.

Diolch yn fawr iawn i Gwenno Jones am arwain y gân, Mrs Valmai Pritchard yr organydd, Miss Marian Jones am Lywyddu a'r rhai fu'n gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol. Hefyd diolch yn fawr iawn i'r arholwyr am eu gwaith ac i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ym mis Mehefin oedd: £40: (111) John Morris, 7 Bryn y Gof; £25: (46) Aled Jones, 9 Tai Glangwna; £15: (12) Geraint a Zonia Bowen, Cefn Coed; £5: (37) Ceri Roberts, 1 Hen Gapel. Bydd clw'r tynfa yn cefnogi costau'r Miri Haf i'r plant.

MIRI HAF. Bydd y Miri Haf eleni am 2.00 y pnawn ar ddydd Sadwrn, 11 Gorffennaf, gyda stondinau, lluniaeth ysgafn, rasys, gwisg ffansi, beiciau a phramiau wedi'u haddurno ac adloniant. Y cae chwarae pêl-droed fydd y lleoliad OND, pe bai'r tywydd yn anffafriol, bydd popeth ond y rasys yng Nghanolfan y Capel am 2.00 o'r gloch. 'The Show goes on!!'

ANSAWDD AER. Ers dechrau Mehefin, mae'r awdurdodau wedi gosod offer mesur glendid yr aer ar ddau bolyn trydan ger Tafarn Bryngwna. Gobeithiwn na fydd y canlyniadau yn rhy ddrwg i'n hiechyd ni!

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Gorffennaf:

5: 11.00 Ysgol Sul

2.0 Parch Gwenda Roberts

12: 11.00 Ysgol Sul

19: 2.00 Parch Marcus Wyn Robinson

26: Dim oedfaon

Ni fydd oedfaon cyhoeddus na'r Ysgol Sul yn ystod mis Awst. Anogir unigolion i addoli'n breifat, yn eu cartrefi, drwy ymuno â chynulleidfaoedd eraill (adref ac ar eich gwyliau) ac yng ngwasanaethau'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala.

TIR NA NOG.

Llongyfarchiadau mawr i Emily Huws, Tyddyn Llwyni, ar ennill gwobr Tir Na Nog eto eleni. Hon yw'r pumed gwaith i

Emily ennill y wobwr arbennig hon. DA iawn wir.

ETHOLIAD EWROP. 60 allan o 198 - dyna oedd y nifer fu'n pleidleisio yng Nghaeathro yn yr Etholiad i Senedd

Ewrop ar 4 Mehefin. Felly roedd y canran, sef 30%, ychydig yn is na'r cyfartaledd trwy Wynedd. Gwn am nifer a oedd wedi penderfynu peidio pleidleisio oherwydd bod aelodau San Steffan (ac eraill?) yn camddefnyddio'r gyfundrefn lwfansau. Ond, ar y llaw arall, wythnosau ynghynt roedd 80% o bobl De Affrig wedi pleidleisio yn eu hetholiadau cyffredinol, ar ôl blynyddoedd lawer o ymdrech gan y brodorion i ennill yr hawl i bleidleisio.

CAPEL Y PENTREF. Yn dilyn cyfarfod ar 4 Mehefin penderfynwyd gofyn yn ffurfiol i Henaduriaeth Arfon yn y cyfarfod a gynhelir yng Nghapel Caeathro ar 7 Gorffennaf a gaiff Eglwys Caeathro ymuno â gofalaeth Glannau Seiont, o dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

ECO'R WYDDFA

DRWY'R POST

I dderbyn ECO'R WYDDFA i'ch drws bob mis cysylltwch ag Olwen Hughes.

Mae ei manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 2.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.

DIOLCH. Dymuna Dilys Jones ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau am y cardiau, arian, blodau a'r anrhegion ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn arbennig i Arwel a Norah am y parti.

CROESO cynnes iawn i Carwyn, mab Elizabeth a Llion Price, Deiniolen, sydd wedi ymgartrefu yn Seiont House, cartref ei daid a nain, sef y diweddar Mr Hugh a Mrs Elizabeth Jones. Rwy'n siŵr y bydd y teulu i gyd yn tyrru i'w hen gartref.

LLONGYFARCHIADAU i Robert Charles Jones (Robin), mab Mrs Megan Olwen Jones a'r diweddar Mr John

Charles Jones, 21 Dôl Afon, ar gael M.B.E. yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines am ei flynyddoedd o waith gyda Cadlanc Byddin Lluoedd Arfog Gwynedd.

DIWEDD TYMOR. Daeth y tymor arholiadau i ben a dymunwn yn dda i bob un sydd yn dechrau yn y coleg y tymor nesaf ac i bob un sy'n dechrau mewn swydd newydd.

YSGOL CWM Y GLO. Erbyn hyn mae y mosaig ar furiau allanol yr ysgol bron wedi ei gwblhau. Plant yr Adran Iau sydd wedi bod yn gweithio yn galed gyda Heather Lowe i'w dylunio a'u creu. Ymlaen yn awr i harddu corlan y Babanod!

Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon weithgar am fynd draw i bacio bagiau ym Morrisons a chynnal Ffair Haf lwyddiannus iawn. Diolch hefyd am y sachau mawr o bridd ar gyfer plannu amrywiaeth o blanhigion. Mae'r plant wrth eu bodd yn eu gweld yn tyfu.

Mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi mwynhau cael gwersi dawns o dan gynllun PESS y tymor yma. Diolchwn i Olwen Green am drosglwyddo ei brwdfrydedd i'r plant.

Ar brynhawn poeth aeth Blwyddyn 5 a 6 draw i Stâd y Faenol i gymryd rhan mewn Gŵyl Gyfeiriannu.

Llongyfarchiadau i bawb am gwblhau y cwrs yn llwyddiannus.

Diolchwn i Flwyddyn 6 am drefnu Ffair Lyfrau lwyddiannus. Gwerthont werth dros £200 o lyfrau gan ennill comisiwn da i'r ysgol.

GWEITHGAREDDAU'R YSGOL



Mosaig ar furiau'r ysgol



Plannu planhigion



Criw cyfeiriannu

YSGOL BRYNREFAIL

CRICED

Tim dan 15

Dydd Iau, Mehefin 18

Ysgol Brynrefail yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen

Yn gêm griced gyntaf y tymor roedd Ysgol Brynrefail yn fuddugol o 40 rhediad. Brynrefail fatioedd gyntaf gyda'r hogiau yn cyrraedd 100 o rediadau oddi ar ei 20 pelawd, gyda Siôn Evans yn sgorio y mwyaf o rediadau i'r tîm cartref. Wedi dechrau gwael fe gyrhaeddodd Syr Hugh 60 cyn i hogiau Brynrefail gael y wiced olaf ac roedd Syr Hugh allan i gyd wedi 15 pelawd. Bydd hogiau Brynrefail yn mynd ymlaen yn y gystadleuaeth i chwarae yn erbyn St Gerard's ym Mhorthaethwy yr wythnos nesaf, gan obeithio y bydd yna newyddion da eto. Pob lwc i'r hogiau.

TOCYNNAU TESCO

Diolch i bawb am hel y tocyntau Tesco a'u cyflwyno i'r ysgol. Cawsom ddigon i archebu cyfrifiadur newydd a fydd yn cyrraedd erbyn mis Medi nesaf.

CLWB CANT

Enillwyr Clwb Cant Ysgol Brynrefail

Ionawr

£29.80: (198) Caroline Logan,

32 Nant y Glyn, Llanrug; £17.85: (136) E. A. B. Jones, Glasgoed, Bethel; £11.90: (21) Pat Jones, 59 Glanffynnon, Llanrug.

Chwefror

£29.80: (128) O.S. Roberts, Hafod Wen, Llanrug; £17.85: (129) Glenys Dwyfor, Llwydfryn, Lôn Marchlyn, Deiniolen; £11.90: (29) Malcolm Jones, Bryn Derwen, Pontrug.

Mawrth

£29.80: (101) Sharon Griffith, Castell, Pentir; £17.85: (50) Veronica Owen, Cil y Mynydd, Waunfawr; £11.90: (89) Yvonne Regan, 3 Stryd Newydd, Deiniolen.

Ebrill

£29.80: (72) Rhiannon Ellis, Y Fedw Arian, Caernarfon; £17.85: (103) D. A. W. Phillips, 7 Tai Arthur, Penisarwaun; £11.90: (64) Sioned Larsen, Bod Afon, Ceunant, Llanrug.

Mai

£29.80: (106) Diane H. Jones, Hendy Glas, Maes Padarn, Llanberis; £17.85: (1) Berwyn Hughes, 34 Glanffynnon, Llanrug; £11.90: (33) Grace Williams, 2 Afon Rhos, Llanrug.

Mehefin

£29.80: (94) Lowri Roberts, 6 Pen y Ffriddoedd, Tregarth;

£17.85: (89) Yvonne Regan, 3 Glanrafon, Llanrug. Stryd Newydd, Deiniolen; Diolch i bawb am eu £11.90: (122) Elinor Pierce, cefnogaeth.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

TROEDIO LLWYBRAU LLANDDEINIOLEN

Erbyn hyn, dylai pob tŷ o fewn plwyf Llanddeiniolen fod wedi derbyn copi o'r daflen lliwgar ar lwybrau'r plwyf. Mae'r daflen lliwgar, llawn gwybodaeth, wedi ei chyhoeddi gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gyda grant ariannol tuag at y gost gan Gyngor Gwynedd. O'i mewn ceir nodiadau am ddaear y fro, a sut y ffurfiwyd y dirwedd gan effeithiau'r rhew. Yna, ceir gwybodaeth am gyn-hanes, cyfnod y Rhufeiniaid, yr Oesoedd Canol, Cau'r Tiroedd Comin, Chwarel Dinorwig a'i rheilffordd, a gwersyll milwrol Rhiwlas yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae hefyd nifer o hanesion diddorol am Ffynnon Cegin Arthur, unig ddamwain awyren y plwyf, llofruddiaeth Fron Chwith ac adeiladu Pont Charlie.

Ar ochr arall y daflen ceir disgrifiad o chwe taith gerdded o fewn y plwyf a chyfarwyddiadau ar sut i'w ehangu os oes angen. Mae map cynhwysfawr yn dangos holl lwybrau cyhoeddus y plwyf, a'r rheini wedi eu rhifo er mwyn gwneud eu dilyn yn haws.

Yn ystod y noson lansio, cyflwynwyd copiau o'r daflen wedi eu fframio i holl ysgolion cynradd y plwyf, yn ogystal ag i Ysgol Brynrefail ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Byddant yn gaffaeliad i ddysgu mwy am hanes, daearyddiaeth a diwylliant eu bro.

Cyfansoddwyd y gerdd ganlynol gan Richard Llwyd Jones, Bethel, ar gyfer yr achlysur.

LLWYBRAU

*Yng nghefn gwlad ein cyn-dadau
yn gul fel gwythiennau'n gwau
cam wrth gam cafwyd
gwerthfawrogiad
hen draffyrdd mor didrafferth.
Nos Sul cyn in' noswyllo
yn yr haf, braf cerdded bro.
Caed balm o'r daith ddi-balmant.
A'r plwyf ar agor i'r plant.
Hyd y ffridd drwy siarad ffraeth
yn agos daeth cymdogaeth;
y criw yn arddel eu cred,
cymwynas oedd cymuned.*

*Yma roedd rhoddion cwmwd,
haid o gnau yn aeddfed gnwd.
Inni ffawd gweld defnydd ffon
a dewis mwyar duon.
Yn ein cof sawl enw cae
a hanes bathu'r enwau.
Drwy'r dysg, parhad i'r gadwyn,
hi'n ein dal â'n tir yn dynn.
Rhwyng tad a mab, adnabod,
gwerth y rhoi gweld gwyrth y rhod.*

*Os hen yw y gwythiennau,
a'n lân i'n calon yn cau;
mae antur eto'n curo
yn y brid a gred mewn bro.
Os gwerth a roir ar berthyn,
â'n chwys fe chwalwn y chwyn.*

*Ein bro heno ddaw'n uned – hyn
ac apêl y bamffled.
Heidio llu i'w hyd a'i lled
a'i harddwch drwy ei cherdded.*
Richard Llwyd Jones

Ond wrth gwrs, bu'n rhaid hepgor mwy o lawer o wybodaeth o'r daflen nac a gynhwyswyd. Mewn gwirionedd, mae lle i gyhoeddi llyfryn bychan o deithiau cerdded ar gyfer y fro – ond

efallai mai cynllun arall fydd hwnnw...

A beth am blwyfi eraill y frô Mae'r un cyfoeth o wybodaeth a hanesion i'w cael ar gyfer plwyfi Llanberis, Llanruga'r Waunfawr. Be amdani? Ac un cyngor bach cyn cloi.

Er mor ddiddorol yw darllen y daflen a rhyfeddu at y fath doreth o wybodaeth sydd wedi ei gywasgu i cyn lleied o le, ar ddiwedd y dydd, does ond un peth i'w wneud: codwch oddi ar eich tinau a

CHERDDWCH!

CYFLWYNO YN Y CABAN



Gareth Roberts, cynllunydd y daflen yn disgrifio'r broses o'i chreu.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
*Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Ciblyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

FIAT	PEUGEOT	BMW	SKODA
ABS	BRÉCS	CLUTCHES	TYRBO
AIR CON	GWASANAETH	BATRIS	VOLVO
MERCEDES	SAAB		

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNION OLWYNION CAMBELTS TRYDANOL
SWEDEN

CYNGOR CYMUNED LLANDEINIOLLEN

Dymuna'r Cyngor longyfarch ysgol Penisa'rwaun ar fod yn fuddugol gyda'r gân actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd a diolch i bob plentyn o'r gymuned a gymerodd ran yn Eisteddfodau'r Urdd.

Llongyfarchion i Richard Llwyd Jones ar ennill Coron Eisteddfod Môn.

Meinciau'r Mileniwm. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith graenus a wnaed gan Menter Fachwen ar y meinciau. Gwnaed meinciau newydd fel y rhai gwreiddiol ar gyfer Penisa'rwaun, Clwt y Bont a Brynrefail ac un gyffelyb i'r hen fainc ym Mhensarn. Gan bod meinciau Bethel, Pen y Golwg, Rhiwlas a Gors Bach yno ers y mileniwm penderfynwyd eu farnisio. Dewis Menter Fachwen oedd eu cludo i'r gweithdy, eu glanhau at y pren sylfaenol, eu trin a'u farnisio i safon y rhai newydd.

Ail-leolwyd mainc Bethel i'r cae chwarae.

Diolch i Arwyn Williams am ymarfer ei grefft unigryw ac i weddill gweithwyr Menter Fachwen am eu cymorth.

Mudiadau gwirfoddol. Atgoffir y mudiadau mai dim ond ar gyfer gweithgaredd neu brosiect arbennig y rhoddir arian eleni.

Cofnodion yr 2il o Fehefin

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Cadeirydd. Penodwyd yr Is-gadeirydd, Richard Ll. Jones, yn gadeirydd am y flwyddyn ac R. Hefin Williams yn Is-gadeirydd.

Diolchodd Richard i Geraint Hughes am ei hynawsedd a'i waith fel cadeirydd 2008/2009.

Teithio llwybrau Llanddeiniollen

Penderfynwyd gofyn i Gareth Roberts fframio'r ddwy ochr o'r daflen ar gyfer yr ysgolion.

Dywedodd Len Jones bod yr ymateb i'r mapiau yn anhygoel. Mae ieuenctid wedi dangos diddordeb annisgwyl.

Dywedodd hefyd bod llawer o oedolion wedi gofyn a oes modd

cael DVD neu debyg o leodd fel Ffynnon Cegin

Arthur gan na fedrent gerdded yno. Awgrymwyd gofyn i ysgol Brynrefail a fydd modd gwneud hyn fel prosiect maes o law.

Materion o'r cofnodion

Safle ail-gylchu Rhiwlas. llythyr i Wynedd i ofyn pryd y gwneir y gwaith a addawyd.

Ysgol Rhiwlas. Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd y dechreuir y ffurfio 'llwybrau diogel i'r ysgol' ar 26ain o Fai. Llinellau melyn dwbl lle mai ymwelwyr cyson 'Dryll', Deiniolen yn parcio - dywedodd Len Jones bod llawer o anawsterau i drigolion eraill.

Cartref Afon Goch, Deiniolen - derbyniwyd ateb Hywel Williams AS a chopi o adroddiad a dderbyniodd oddi wrth Jane Davidson AC. Penderfynwyd derbyn ei gynnig i ddwyn y mater i fyny gyda'r gweinidog dros Iechyd a'r

Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gohebiaethau a materion eraill

Dywedodd Huw P. Hughes bod amryw o leoliadau magnel (cannon stones) yn yr ardal, mae cyfeiriad map i bob un, megis Caeau Fachell, Clegir, Craig Wylan a Llanberis. Gofynnodd a oes rhai yn ardal Rhiwlas? Awgrymodd efallai y gellid tanio rocedi yr un pryd o'r llecynnau yma ym mhob plwy.

Dywedodd Elspeth Mitcheson y dylid ymestyn y gwaharddiad cyflymder o 50mya o Beran hyd at Groeslon Tŷ Mawr

gan bod cymaint o ffyrdd bychain yn dod allan i'r A4244. Dywedodd Aled Green bod angen atgoffa Gwynedd bod coed ar ochr Ffordd Winllan.

Llwybrau

Mae llawer o waith torri coed a mieri a thrwsio i'w wneud ar y llwybrau, awgrymodd Len Jones ofyn i'r contractwyr torri gwair am bris ychwanegol am wneud hyn ac, o bosibl, trefnu'r gwaith ar ran neu ar y cyd â Chyngor Gwynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7ed o Orffennaf.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 19eg o Fai, 2009 etholwyd Goronwy Hughes yn Gadeirydd am y flwyddyn gyfredol gyda Avril Jones yn Is-Gadeirydd. Fe dderbyniwyd adroddiad ariannol am 2008-09 a penderfynwyd ar y gyllideb am 2009-10.

Yn y Cyfarfod arferol a gynhaliwyd ar yr un noson penderfynwyd:

Gosod cloeau newydd ar giatiau caeau chwarae Pwll Moelyn a Nant Y Glyn.

Holi'r Cyngor Sir ynglyn hawliau pobl i dorri coed.

Edrych i mewn i'r posibiliadau a'r gost o wella cyflwr y llwybr ger Ogwen ar ol y gwellianau a wnaed yn ddiweddar.

Cyfarfod perchennog Celtic Windows ynglyn a atgyweirio'r ffens rhwng y Gweithdy a Cae Chwarae Pwll Moelyn gan fod

pryder ynglyn a diogelwch y plant sydd yn defnyddio'r Cae. Cysylltu gyda Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir ynglyn a cyflwr Llwybr ger Tyddyn Rhyddid.

Cyfarfod gyda'r Contractiwr sy'n torri gwair yn y fynwent a Warden yr Eglwys i drafod toriad y darn tir sydd yn yr hen fynwent.

Datgan pryderon y Cyngor ynglyn a'r bwriad i adeiladu siop Tesco fawr ger Cibyn yng Nghaernarfon.

Cwyno i'r Cyngor Sir fod nifer o goed yn yr ardal yn tyfu drosodd i'r ffyrdd.

Datgan siom fod y cynllun Llwybr Diogel ar gyfer ysgol Cwmyglo wedi'i newid a gofyn i'r Cyngor am eglurhad am y newid.

Adolygu Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Elusen y Fawnog Rydd Cae Chwarae ger Nant y Glyn, Llanrug


Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Mehefin yn yr Ysgol Gynradd, fe gytunodd 12 o bobl y pentref fod yn ymddiriedolwyr i'r elusen gyda'r bwriad o wella adnoddau'r Cae Chwarae yn enwedig y rhan ar gyfer timau peldroed ifanc y pentref. Roedd nifer fawr o gwynion am ymddygiad pobl ifanc yn yfed gyda'r nos yn y cae a'r diffyg ymateb gan yr heddlu.

Adroddwyd gan nifer o'r cyhoedd a oedd yn bresennol am boteli cwrw yn cael eu malu yn erbyn yr offer chwarae ac ar y maes parcio ac am y rheidrydd i blant yr ysgol ag unigolion orfod clirio'r gwydr er mwyn i blant gael chwarae yno.

Penderfynwyd fod y sefyllfa bresennol yn andderbyniol a gofynwyd i'r ysgrifennydd drefnu cyfarfod cyhoeddus gyda'r heddlu ar 16 Gorffennaf yn yr Ysgol Gynradd i drafod sut i setlo'r broblem. Croesawir pawb o'r pentref i'r cyfarfod yma - bydd posteri yn ymddangos yn y pentref yn fuan.

Gofynwyd hefyd i bawb sy'n gweld ymddygiad gwrth gymdeithasol yn yr ardal i ffonio'r heddlu a gadael iddynt wybod beth sy'n digwydd ac enwi'r troseddwyd os ydynt yn ei hadnabod.

Fe adroddwyd hefyd fod y Cyngor Cymuned yn edrych ar y posibilrwydd o wahardd yfed alcohol yn holl feysydd chwarae'r ardal a gellir trafod hyn hefyd yn y cyfarfod gyda'r heddlu.



**Stof Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB

IARD LO Carmel Gwynedd

01286 882160

UN FUNUD FACH

1571

Y peth agosaf sydd gennyf at beiriant ateb ffôn ydi gwasanaeth 1571 BT sy'n recordio negeseuon pobl os nad oes neb gartref i ateb y ffôn. Nid ei fod yn berffaith, chwaith. Yn un peth, am nad ydynt yn nabod y llais dieithr, Saesneg sy'n eu cyfarch, fydd rhai pobl ddim yn gadael neges rhag ofn eu bod wedi ffonio'r tŷ anghywir. A pheth arall, does yna ddim sicrwydd y byddaf fi'n clywed y neges bob tro gan fod diwrnod neu ddau'n mynd heibio weithiau heb i mi sylwi arnynt. Rwy'n ofni, er i bobl adael neges nad oes sicrwydd i mi ei glywed.

Coeliwch neu beidio, â minnau ar ganol sgwennu'r golofn hon, fe ganodd y ffôn, a'r gwasanaeth 1571 oedd yno!

Dyna'r tro cyntaf, hyd y cofiaf, i 1571 fy ffonio fi i ddwud fod ganddo neges i mi. Ond dweud oedd y llais nad oedd modd i mi dderbyn y neges am mai neges testun neu fwisg neu lun oedd o. Does gen i ddim syniad pwy oedd yn ceisio cysylltu â mi na beth oedd y neges.

Mae'r neges a adawodd Duw i ni yn Y Beibl yn gwbl eglur, diolch am hynny. Mae'n gwbl ddealladwy. Trwy hanesion yr Hen Destament a geiriau'r proffwydi a'r Salmau, a thrwy dystiolaeth a llythyrau'r Testament Newydd mae Duw

wedi rhoi ei neges i ni. Trwy ei Fab Iesu Grist yn fwyaf arbennig mae wedi gadael i ni wybod am ei gariad tuag atom. Mae'r neges yno'n ddiogel ar ein cyfer: mae yno'n glir, a does dim modd i ni beidio ei deall os edrychwn ni arni. Ond y drafferth yw nad yw pobl yn trafferthu i wrando yn aml. Does dim modd i bobl weld gogoniant yr Efengyl heb iddynt roi clust i Air Duw. Does dim modd i ni glywed Duw yn ein dysgu a'n harwain a'n cysuro yn ein bywyd Cristnogol o ddydd i ddydd heb i ni ddarllen a gwrando ar ei lais yn Y Beibl. Trwy'r llyfr hwn y mae Duw yn eich cyfarch o hyd.

Ac mewn gweddi yr ydym ninnau'n ei gyfarch ef. A phan wnawn ni hynny, does dim rhaid ofni nad yw'r Brenin Mawr yn ein clywed. Nid gadael neges yn y gobaith y bydd Duw o bosibl, rywbryd yn ei glywed a wnawn ni wrth weddïo. Pan drown ni ato, pan alwn ni arno mewn gweddi, y mae'r Arglwydd yn ein clywed. Mae'r Tad Nefol yn gwrando arnom ac yn gwybod ar unwaith beth a ddywedwn neu beth sydd arnom ei angen. Does dim perygl i'n gweddiâu syrthio ar glust fyddar. Dyfnhau'r berthynas hon o siarad â Duw a gwrando arno yw un o gyfrinachau pennaf y bywyd Cristnogol o hyd.

JOHN PRITCHARD

RHYBUDD LLYN PADARN, LLANBERIS AR BEN

Mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r rhybudd a roddwyd i ddefnyddwyr Llyn Padarn yn Llanberis oherwydd algâu gwyrddlas gwenwynig.

Mae'r holl gyfyngiadau wedi eu codi ar ddefnyddio'r llyn ar ôl i Asiantaeth yr Amgylchedd gadarnhau fod dau sampl olynol, a gymrwyd o leiaf wythnos ar wahân, o dan y lefel trothwy, sy'n profi fod y blwm wedi cilio.

Ond mae cyngor i drigolion ac ymwelwyr i Lanberis y gall yr algâu naturiol ddychwelyd, a gallasai rhybudd newydd gael ei ddatgan rhywdd yn ystod yr haf.

Mae'r algâu gwyrddlas - neu anabena lled-droellog - yn digwydd yn naturiol mcwn dyfroedd mewndirol, aberoedd ac yn y môr. Ni ellir ci dynnu o'r dwr na'i drin a gall fod yn doreithiog mcwn dyfroedd cynnes, bas sydd yn llygaid yr haul.

Dywedodd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Cwledig Cyngor Gwynedd: 'Nid oedd dcwis ond i gyfyngu

ar ddefnydd o'r llyn yn gynharach y mis yma er lles iechyd y cyhoedd. Mae'n newyddion da iawn i ddefnyddwyr y llyn ac i fusnesau lleol fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau fod yr algâu gwyrddlas yn cilio. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am fod yn amyneddgar ac am eu cydweithrediad dros y pythefnos ddiwethaf.

'Er gwaethaf y newyddion da yma mae'n bwysig fod pobl yn parhau i fod yn wyladwrs - gall yr algâu ddychwelyd ar unrhyw amser. Byddwn yn pwyso ar bobl i gadw golwg am arwyddion rhybudd fyddai'n cael eu gosod ar lannau'r llyn a gcr mynedfaoedd y llyn petai broblem yn codi ci ben cto.'

'Rydym yn gobeithio na fydd yr algâu yn dychwelyd. Rydym yn gofyn i'r cyhoedd gadw golwg ar y scfyllfa a chysylltu â ni ar y llinell gymorth argyfwng 0800 80 70 60 os ydynt yn amau ei fod yn dychwelyd.'

ADEILADU HAFOD ERYRI



Ymarfer adeiladu Hafod Eryri cyn wynebu'r tywydd mawr!

ANRHEG PEN-BLWYDD YNG NGHANOLFANNAU HAMDDEN GWYNEDD

Bydd gan bobl ifanc Gwynedd hawl i anrheg ychwanegol ar eu pen-blwydd yn 16 diolch i gynllun hamdden arbennig gan Gyngor Gwynedd.

Bydd unrhyw un o drigolion Gwynedd sy'n troi'n 16 oed yn gallu cofrestru yn eu canolfan hamdden leol i dderbyn aelodaeth am ddim am flwyddyn - a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r cyfleusterau am brisiau disgownt yn ogystal â phum tocyn i ddefnyddio ystafelloedd ffitrwydd y Cyngor am ddim.

Ar hyn o bryd, mae gan blant a phobl ifanc hawl i aelodaeth am ddim yng nghanolfannau hamdden y Cyngor nes eu bod yn 15 oed. Fel rhan o'r cynllun newydd hwn, bydd pobl ifanc Gwynedd a fydd yn cofrestru yn eu canolfannau hamdden lleol yn derbyn cerdyn pen-blwydd ar eu pen-blwydd yn 16 oed ynghyd ag aelodaeth i ganolfannau hamdden y Cyngor am flwyddyn.

Dywedodd y Cyngorydd Roy Owen, sy'n arwain ar faterion Hamdden ar Gyngor Gwynedd: 'Mae'r ffaith fod nifer o'n plant a'n pobl ifanc yn gwneud y mwyaf o'r cynllun nofio am ddim, yn ogystal â'r amrywiaeth o weithgareddau eraill sydd ar gael yng nghanolfannau hamdden y Cyngor yn galonogol iawn.

'Rydym yn gobeithio y bydd y cynllun newydd hwn a fydd yn golygu y bydd gan bob person ifanc hawl i flwyddyn o aelodaeth am ddim pan fyddant yn troi'n 16 oed yn ffordd o sierhau fod mwy o bobl ifanc Gwynedd yn parhau i

ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt a Datblygu eu diddordebau chwaraeon a hamdden.

'Mae'n hynod bwysig ein bod yn gwneud yr hyn y gallwn i gynorthwyo ein pobl ifanc i gadw'n heini ac ymarfer - yn wir bydd y cynllun newydd hwn yn golygu fod pobl ifanc Gwynedd yn derbyn pum tocyn i ddefnyddio'r ystafelloedd ffitrwydd. Os ydych chi'n dathlu eich pen-blwydd yn 16 oed o haf 2009 ymlaen, llenwch y ffurflen gais yn eich canolfan hamdden lleol a gwnwch yn siŵr eich bod yn derbyn aelodaeth blwyddyn am ddim.'

Ewch i'ch canolfan hamdden lleol Cyngor Gwynedd am ffurflen gais, neu am ragor o wybodaeth am eich canolfan hamdden lleol, ewch i wefan y Cyngor: www.gwynedd.gov.uk

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Mcnai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriad a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384



DATHLU PEN-BLWYDD YN 100 OED. Ar ddydd Gwener, 12 Mehefin, fe ddathlodd Mrs Persis James, Bryn Mair, ei phen-blwydd yn 100 oed. Wedi magwraeth hapus yn Llanrwst, bu yng ngholeg F.L. Calder yn Lerpwl cyn dysgu yn Winchester am rai blynyddoedd. Yn 1933 fe'i penodwyd yn athrawes yn Ysgol Brynrefail ac, yn wir, bu hanes a bywyd yr ysgol o ddiddordeb mawr iddi hyd y dydd heddiw. Priododd athro Ffiseg yr ysgol, Ieuan James, yn 1940 a magwyd pedwar o blant yn y Waunfawr cyn symud i Bryn Mair yn 1954. Pan ddaeth Ieuan James yn brifathro yn 1956 bu'n gefn mawr iddo. Ymddiddorai'r ddau mewn tyfu llysiau a blodau o bob math, yn hynt a helynt y teulu a'u wyrion a'r wyresau, wrth gwrs, ac hefyd mewn teithio i'r Alban a Norwy. Ystyriodd hi'n ffrainc o'r mwyaf cael dadorchuddio cofeb canmlwyddiant Ysgol Brynrefail yn y flwyddyn 2000. Do, fe gafodd gerdyn gan y Frenhines a chan y Cynulliad, ond doedd hynny ddim pwysicach na'r alwad ffôn i Japan gan ei hwyres o Gacathro, Mari. Treuliwyd prynhawn hapus yn Bryn Mair gyda ffrindiau da, a choronwyd y cyfan gyda ymweliad Mr Eifion Jones ac Eirwen Williams, ynghyd â Leri a Sion o'r chweched dosbarth, yn cludo torch o flodau hardd a chacen pen-blwydd fendigedig

wedi ei haddurno â bathodyn yr ysgol, wedi ei greu'n gelfydd mewn past siwgr gan Eurwen, cogyddes yr ysgol. Diolch o galon i chi am gofio.

Daeth y teulu ynghyd yn Seiont Manor y diwrnod canlynol, gan ymfalchio yng ngwellhad Mam wedi iddi dorri ei chlun fis Ebrill, a thynnwyd llun teulu gan Emerson Hughes o Lanberis, sydd hefyd yn gyn ddisgybl ffyddlon a chymwynasgar.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Persis James, Bryn Mair, ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn gant oed.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Fawrth, 9 Mehefin. Croesawodd Phyllis Ellis, y Llywydd, nifer dda o aelodau a bu ethol swyddogion yn dasg rwydd dros ben, gyda Margaret Parry yn Llywydd, Mena yn Is-Lywydd, Eryl yn Ysgrifennydd, Margaret Christian yn Is-Ysgrifennydd, Ann Lloyd yn Drysorydd a Pat yn Is-Drysorydd.

Diolchodd Phyllis i swyddogion ac aelodau'r pwyllgor a diolchodd Margaret Parry iddi hi am ei llywyddiaeth. Dymunwyd triniaeth lwyddiannus i Menna ar ei phen glin.

Llongyfarchwyd Nan a Linda ar ennill y safle cyntaf gyda'r Llyfr Lloffion chwaethus. Derbyniwyd, gyda diolch, siec o £1,000 gan Loteri i'r gangen.

Gwnaed elw sylweddol at y gangen ac Elusen Cancr y Fron drwy gynnal sêl atgoliion a mwynhawyd llymaid a lluniaeth ysgafn wedi'i baratoi gan Phyllis. Enillydd y raffl oedd Carrie. Bydd y Cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth yn mis Medi. Paratwir y banded gan genod Penisarwaun.

parhad ar dudalen 17



Nan a Linda gyda'r Llyfr Lloffion 2007/08



Pat, Phyllis ac Ann gyda'r siec Loteri Arian i Barwb Cymru

PA FERSIWN SY'N GYWIR?

GLYN RHONWY - LLANBER

Mae llwybrau cyhoeddus yn croesi'r safle, ac mae'r rhan uchaf o safle Glyn Rhonwy wedi ei ddynodi yn Dir Mynediad i chwio dramwyo gyda gofal, mae'r perygl o lithro, baglu a disgyn yn uchel.

- Rhaid parchu'r Cŵd Cefn Gwlad bob amser.
- Ystyriwch yn ofalus eich dewis o lwybr o gylch tyllau chwarel a'r clogwyni sy'n erydu'n barhaus.
- Ni ddylid caniatu plant ar y safle heb eu goruchwyllo.
- Rhaid cadw draw o hen adfeilion adeiladau a strwythurau chwarel.
- Gwaharddir nofio mewn unrhyw ddŵr.
- Gwaharddir dringo mewn unrhyw ran o'r safle.

Glyn Rhonwy is a site without public footpaths and the top part of the site has been identified as Access Land. You must take care when on site due to possible slips, trips and falls from heights.

- The Countryside Code should be respected at all times.
- Select your path carefully around the quarry holes and rock faces that are continuously eroding.
- Children should not be allowed on site unsupervised.
- Keep clear from old buildings and structures.
- Swimming in any water is forbidden.
- Climbing in any part of the site is forbidden.

Cyfrandir Datblygu / Development Directorate, Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration Service, Cynor Gwynedd, Swyddfa'r Cynor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Ffôn / Tel: (01286) 672255

www.gwynedd.gov.uk

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Gwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

LLANBERIS

Gwyneth ac Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

MRS JANE JONES.

Ymgartrefodd yn Llanberis gyda'i gŵr, Mr Robert Lloyd Jones, a chawsant ddau o blant, Catherine a Maldwyn. Yn ddiweddar bu'r ddau yn cadw Swyddfa'r Post ym Mrynrefail am tua 10 mlynedd cyn ymddeol oherwydd gwaeledd y gŵr.

Yr oedd yn wraig annwyl iawn, gyda gwên bob amser ar ei hwyneb ac yn fawr ei pharch yn y gymuned. Ei diddordebau oedd ei chapel a chanu. Mynychodd yr oedfaon yn Capel Coch ar hyd y blynyddoedd ac roedd y capel yn agos iawn at ei chalon hyd at y diwedd. Edrychai ymlaen at gael copi o'r 'Gronyn' bob wythnos, hyd yn oed tra bu yng nghartref Nyrsio Penisarwaun.

Yr oedd yn weithgar iawn ac yn barod ei chymwynas mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r capel a'r gymuned. Cafodd bleser mawr yn mynd o amgylch i ddiddanu a chystadlu tra'n aelod o gôr Lleisiau Lliwedd. Bydd colled fawr ar ei hol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Myrddyn Pritchard ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau, cymdogion ac aelodau'r capel am eu caredigrwydd tuag ato ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd.

Hefyd dymuna Mrs Annie Pritchard ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu pryder a'u dymuniadau gorau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'r holl feddygon a'r nyrsys a fu'n gofalu amdani.

CANCER Y FRON. Dymuna Gwenda, 5 Stryd yr Wyddfa, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chydweithwyr am ei noddi i gerdded 26.2 milltir ar hyd ffordd Marathon Llundain (Y Moon Walk) yn ddiweddar. Diolch arbennig i Lowri a Sandra, Bryn Tirion, am wncud y gwaith ardderchog o addurno y dilledyn oedd yn cael ei wisgo ganddi wrth gerdded ar y noson. Casglwyd £650 tuag at waith ymchwil 'Cancer y Fron. Da iawn, Gwenda.

MRS DWYNWEN M. ROBERTS. Dymuna Selwyn, Dafydd, Eiddwen, Eurwyn a theulu y ddiweddar Mrs Dwynwen M. Roberts, Rhianfa, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli Mam, Mam yng nghyfraith, Nain a hen Nain annwyl.

Diolch hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau, llythyrau a'r

rhoddion a dderbyniwyd er cof tuag at Gronfa MS ac Ymchwil Cancr. Diolch i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy ac i gwmni E.W. Pritchard, Llanberis, am drefniadau hynod o barchus a thrylwyr.

Rydym hefyd yn diolchgar iawn i Staff Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd am eu gofal diffuant yn ystod ei gwaeledd.

MRS AGNES WILLIAMS. Dymuna Carolyn, John, Claire, Katie a theulu y ddiweddar Agnes Williams (priod y diweddar Gordon Williams), Glaslyn, 11 Stryd Siarlot, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl iawn.

Diolch am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, ac i'r Parchg John Pritchard am wasanaeth teimladwy ac i Mr Derek Jones am ei deyrnged.

Yn olaf diolch i Gwynfor o E.W. Pritchard am ei garedigrwydd a'i wasanaeth proffesiynol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Joyce Jones, 27 Dôl Elidir, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion, rhoddion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ddiweddar Mai. Diolch yn fawr i bawb.

MR ELWYN HUGHES. Dymuna Janice, Stephen, Denny, Dylan, Nerys a theulu'r diweddar Elwyn Hughes ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr, tad, taid a brawd arbennig iawn. Ein diolch i'r Parchg R.W. Townsend a Mr Derek Jones a fu yn cynorthwyo ddiwrnod yr angladd.

Diolch i Gwynfor, E.W. Pritchard am y trefniadau cwrtais a phroffesiynol. Casglwyd £1,009 tuag at Tŷ Gobaith. Diolch o waelod calon i bawb.

DIOLCHIADAU Dymuna Cai Morgan, 34 Maes Padarn, ddiolch yn fawr iawn am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ym mis Ebrill. Diolch yn fawr i bawb.

Côr MEIBION. Ar nos Fawrth, 26 Mai, ymddangosodd y Côr o ņaen cynulleidfao o tua 300 yn Eglwys Sant Ioan.

Llandudno. Yn ôl y dderbyniad oddi wrth y gwrandawyr a barn yr aelodau cu hunain roedd hwn yn berfformiad arbennig gan y Côr. Yr unawdwyr ar y noson oedd Ted Morris (Bass) a



Disgyblion Blwyddyn 2 efo cymeriadau'r sioe.

TRIP. Mae tymor y tripiâu ar fin dechrau. Mae Blwyddyn 2 wedi bod ar daith i weld sioe Rala Rwdins yn y Theatr yn y Rhyl. Dyma'r hanes gan Alis.

Dydd Mercher, Mehefin 10fed, aeth Blwyddyn 2 am drip. Cawsom bicnic ym Mharc Eirias ac ar ôl gorffen ein bwyd cawsom fynd i'r parc i chwarae.

Wedyn cawsom fynd yn ôl ar y bws i Rhyl. O'r diwedd fe wnaethom ni gyrraedd y theatr. Enw'r sioe oedd 'Rwtsh Ratsh Rala Rwdins'. Roedd Rala Rwdins yn canu a Strempen yn smalio bod yn Superman. Cafodd pawb hwyl a sbri ac roedd pawb yn blant da iawn. ALISTHOMAS, Bl. 2



Anel, Nathan a Trystan sy'n profi llwyddiant ym myd rhedeg a rygbi.

L L W Y D D I A N N A U CHWARAEON. Mae'r ysgol yn hynod o falch o glywed am lwyddiannau disgyblion yn y gymuned.

Mae tîm pêl-droed dan 9 y pentref wedi cael sawl llwyddiant yn ddiweddar. Mae dau frawd o'r ysgol hefyd wedi profi llwyddiant mawr yn

ddiweddar, sef Anel a Trystan Davidson. Mae Trystan wedi ennill y wobr gyntaf dan 10 a than 12 yn Ras Moel Eilian, ac mae Anel yntau wedi cael ei ddewis yn chwaraewr rygbi gorau'r flwyddyn Dan 10 gan Glwb Rygbi Caernarfon; mae ef a Nathan o'r ysgol wedi eu dewis i fod yn nhim Eryri.

Dafydd Roberts (Bariton) sef yr Arweinydd presennol Bydd y Côr yn ymddangos yn yr un safle ar nos Fawrth, 28 Gorffennaf am 8 o'r gloch.

DIOLCH. Dymuna Dorothy, Adrian, Andrew a theulu y diweddar Dennis Williams, gynt o 23 Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch yn ddifffuant am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch

o galon am gymwynasgarwch a charedigrwydd cymdogion a chyfeillion yn ystod gwaeledd Dennis, ac am y rhoddion ariannol er cof amdano a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanberis a Chanolfan Feddygol Rhydychen.

Llawer o ddiolch i'r Parchedig John Pritchard am ei gymorth, a'i wasanaeth hynaws ddiwrnod yr angladd.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

LLANBERIS

parhad o dudalen 12

CAPEL COCH

Ysgol Sul: Cafodd amryw o blant yr Ysgol Sul eu gwobrwyo am ddysgu ar gyfer arholiad Cymanfa Presbyteriaid Dosbarth Padarn a gynhaliwyd dan nawdd eglwys Cefnywaun yn Ebeneser, Deiniolen, ddydd Sul, Mehefin 14. Llongyfarchiadau iddynt.

Clwb Pysgod Mawr: Mae'r Clwb Pysgod Mawr yn cael ei gynnal yn Capel Coch am 6.45 o'r gloch ar nos Sul ar gyfer ieuenctid Blwyddyn 7-9 yr ysgol uwchradd, gan eglwysy'r pentref. Mae croeso cynnes i unrhyw un yn yr oedran hwn

ymuno â ni. Yn ystod tymor yr haf mae sesiwn pêl-droed yn cael ei gynnal ar gyfer yr hogiau ar Gae'r Ddôl rhwng 6.30 a 7.00 o'r gloch, cyn y Clwb. Bydd yr hogiau yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth a drefnir gan yr elusen Gristnogol, Trobwynt, yn Ysgol Botwnnog nos Lun, Gorffennaf 6.

Trip Ysgol Sul: Aeth aelodau'r Ysgol Sul i Sw Cacr ar eu Trip Ysgol Sul blyneddol ddydd Sadwrn, Mehefin 27.

Cymorth Cristnogol. Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai, casglwyd £737.56 yn Llanberis. Wedi ychwanegu'r £84 a wnaed yn y noson Gwis, golygai hynny gyfanswm o £821.56. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y casgliad o ddrws i ddrws, a diolch yn arbennig i'r criw ffyddlon a fu'n casglu eleni eto. Gwerthfawrogir eu gwaith yn fawr iawn. Erbyn y flwyddyn nesaf, gobeithio'n fawr y bydd modd i ni gael rhagor o gasglyddion i'n helpu gyda'r gwaith pwysig a gwerthfawr hwn.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, ar achlysur dathlu ei phen - blwydd yn 70 oed ar 29 Gorffennaf.

TLWS CELF SW BAE COLWYN. Bu plant o'r ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth Arlunio Bywyd Gwylt a drefnwyd gan Sw Bae Colwyn yn

ddiweddar. Dyfarnwyd Gwobr Margaret Jackson i'r ysgol am iddi ennill y mwyaf o wobrau yn y gystadleuaeth.

TAITH GERDDED. Bellach mae'n arferiad ganddom gynnal p'nawn o gerdded i holl ddisgyblion yr ysgol. Y nod yw annog y plant i gerdded mwy er mwyn hybu gwell iechyd a gwerthfawrogi'r harddwch sydd ar eu carreg drws.

Penderfynwyd eleni i wneud y daith yn un noddedig er mwyn codi arian tuag at y gwariant cyfredol ar y ddau fuarth.

Diolch i bawb sydd wedi noddi'r plant ac i'r rhieni a ymunodd â ni ar y daith. Diolch arbennig i Mr Ken Jones a arweiniodd daith y disgyblion Iau dros y tir agored uwchben yr ysgol; mae ganddo stôr o wybodaeth leol i'w rhannu.

RAS ERYRI. Diolch i Swyddogion Ras Eryri am y rhodd hael a dderbyniwyd yn ddiweddar. Mae'r arian wedi mynd tuag at y gwariant ar y ddau fuarth ac at y waliau dringo yn benodol.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Côr yn yr Oriel ar nos Lun, 16 Chwefror 2009.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion am y flwyddyn 2009/2010: Cadeirydd: Ifor Jones; Trysorydd: Emerson Hughes; Ysgrifennydd: Hefina Jones (01286 871006)

Ail-etholwyd yr holl bwyllgor.

DIOLCHIADAU. Dymuna Catherine, Maldwyn a theulu y ddiweddar Mrs Jane Jones, Peris View, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y llu cardiau ac arian a dderbyniasant. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard a Mr Derek Jones a gymerodd ran yn y gwasanaeth ynghyd â Mr Gareth Jones, yr Organydd. Diolch i bawb yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ac i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am drefnu'r angladd mor gwrtais a phroffesiynol. Diolch i bawb.

YSGOL DOL BADARN

CYFEIRIANNU. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth

gyfeiriannu ar dir y Faenol yn ddiweddar. Cafodd yr ysgol nifer dda o wobrau yn cynnwys un cyntaf, un ail a dau drydydd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch i Mrs Roberts-Jones am eu hyfforddi.

GALA NOFIO. Aeth Tim o'r ysgol i gystadlu yn y Gala Nofio

i ysgolion mwyaf Arfon yn ddiweddar gan ennill y mwyaf erioed o wobrau. Llongyfarchiadau mawr i bawb oedd yn y tîm.

CANU I'R GWESTEION. Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn canu efo disgyblion Iau Ysgol Beddgelert i ddiddanu'r gwesteion wahoddwyd i agoriad swyddogol Hafod Eryri ar 12 Mehefin



Disgyblion Blwyddyn 6 fu'n cyfeiriannu ym Mharc Menai



Tîm nofio'r ysgol gafodd lwyddiant yn y Gala Nofio yn ddiweddar.



Côr Dolbadarn a Beddgelert

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

HAU CYMUDAL

07979

620996

- Tmreie seir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadluol

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff



ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

CYFARFOD PREGETHU. Cafwyd Cyfarfod Pregethu'r Sulgwyn llwyddiannus iawn unwaith eto eleni yn Sardis. Yn y prynhawn yr oedd cynulleidfadda iawn wedi dod ynghyd a'r pregethwr gwadd oedd yr Archddiacon Meurig Llwyd, Bangor. Daeth ei destun o Lyfr yr Actau, sef tywalltiad yr Ysbryd Glân. Yn yr hwyr deallaf bod cynulleidfadda yno unwaith eto a'r cennad yn yr hwyr oedd un o blant Sardis, sef y Parch William John Lewis, Llanfairpwll. Deallaf iddo yntau bregethu ar yr Ysbryd Glân. Mae swyddogion Sardis i'w canmol ar lwyddiant y Cyfarfod Pregethu bob Sulgwyn, hefyd eleni fe gawsant ddiwrnod bendigedig o braf.

MARWOLAETH. Ar 10 Mehefin daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth sydyn Derek Williams, Bron Eilian, yn 77 mlwydd oed. Yr oedd allan hefo'i sgwter methodig y diwrnod cynt. Andros o golled i'r ardal gan fod Derek yn barod iawn ei gymwynas er pa mor fregus oedd ei ieuchyd, ac hefyd yr oedd bob amser yn barod i fynd i'w boced os oedd rhywun yn casglu at achos da. Aelod o Eglwys St Mair oedd Derek, ac ers i'r eglwys gau byddai yn rhannu ei gyfraniad rhwng Eglwys MC a Sardis, ac yna wedi cap Capel MC y roedd yn dal i gyfrannu yn hael iawn at Eglwys Sardis.

Ers pan y bu i Derek gael ei sgwter newidiodd ei fywyd oherwydd yr oedd ar y ffordd bob dydd yr oedd y tywydd yn ffafriol, ac os y deuech i'w gyfarfod nid yn hawdd iawn y gallech ei adael. Nid oedd awr o sgwrs yn ddim byd. Cafodd oriau o gysur allan o'r sgwter ac fe gollir ei weld yn teithio'n hamddenol ar hyd y fro, ac wrth gwrs, collwn ei straeon. Cydymdeimlwn yn fawr a'i

wraig, Dilys, a'r genod, Shirley a Delwen a'r teulu oll yn eu galar a'u colled. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma. Braf oedd cael adnabod rhywun fel Derek.

Teyrnged y Canon Idris Thomas yng nghapel Sardis i Derek Williams, Bron Eilian Er y gwynt a'r glaw trwm, daeth tyrfa deilwng i ffarwelio â Derek a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 10 Mehefin. Ers rhai blynnyddoedd roedd yn fregus ei ieuchyd ond ymladdodd yn ddygn drwy'r cyfan gan geisio byw mor normal ag y gallai. Drwy ei ymadawiad aiff talp arall o hanes Dinorwig oherwydd hogyn o Ddinorwig o'i gorun i'w sawdl oedd Derek, a byddai pawb a ddeuai i'w gwmni yn gwybod hynny yn go sydyn.

Er iddo basio yr arholiad hwnnw pan yn un ar ddeg oed a mynd i Ysgol Ramadeg Brynrefail a'i fryd, bryd hynny, ar fynd yn filfeddyg, yn bymtheg oed ac yn dilyn marwolaeth ei fam, gadawodd yr ysgol i fynd i'r chwarel.

Ar ôl cyfnod yno a hyd ei ymddeoliad bu'n un o weithwyr ffordd y Cyngor.

Bugail defaid oedd Derek am ymfalchiai yn hynny. Derbyniodd brentisiaeth dda gan ei Ewythr Jac ym Meddgelert.

Treuliais innau flynyddoedd braf pan yn hogyn ysgol yn ei gwmni yn dysgu hynt a helynt y diadelloedd ar lechweddau llwm Dinorwig. Roedd cŵn defaid a mynychu treialon cŵn defaid yn mynd a'i fryd. Rhoddai rhaglenni recordiau hwyrol Radio Cymru ar nosweithiau Sadwrn a'r Sul fwynhad mawr iddo gyda'i geisiadau.

Collir ei weld ar ei sgwter methodig lle medrai deithio yn hamddenol ar hyd y fro. Anodd

i neb, boed ar aelwyd neu ar y lôn, oedd dianc o gwmni Derek oherwydd ei siarad heintus a'i straeon a'i bethau. Roedd rhoi'r byd yn ei le yn grefft naturiol iddo a chwmni pobol yn donic angenrheidiol. Yn ganolog i'r cyfan roedd cariad a chonsyrn angerddol Derek dros erwau Dinorwig a bywyd a gwaith bugeiliaid yr ucheldir.

Collir y penteulu o aelwyd Bron Eilian ac aiff ein cydymdeimlad at ei weddw, Dilys, ei ferched, Shirley a Delwen Haf a'u teuluoedd.

I Derek, bellach, mae'r geiriau oedd ar ei daflen angladdol yn dweud y cyfan:

'Mae'n gorwedd bellach heb na phoen na phla

Yn Erw "defaid cadw" y Bugail Da.'

Coffa da amdano.

MARWOLAETH. A'r Eco yn mynd i'r wasg daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Harry Lewis, Bryn Sardis gynt, yn 80 mlwydd oed yn Awstralia. Lladdwyd Harry mewn damwain. Yr ydym yn meddwl llawer am Elizabeth, ei wraig, a'r plant, Gwyneth ac Euros. Gobeithio y bydd iddynt gael nerth i ddal y brofedigaeth fawr. Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at ei chwaer, Eluned, a'i frodyr, y


Parch William John Lewis, Ralph, Goronwy ac Alun. Gobeithio, fel teulu, y gallwch gofio am yr amser da hefo Harry ac y bydd Duw yn agos atoch yn yr oriau tywyll.

GENEDIAGETH

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Mair a Geraint, 12 Maes Eilian, ar enedigaeth eu merch fach, Heli Haf ar 14 Mehefin, hefyd i Iona ac Ifor ar ddod yn Nain a Thaid.

PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed ddechrau'r mis ac hefyd, cyn y daw'r Eco nesaf o'r wasg fe fydd Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, wedi cael ei ben-blwydd yn 93 oed. Pen-blwydd Hapus iawn i'r ddau ohonoch a gobeithio am ieuchyd a phob bendith i'r blynnyddoedd a ddel. **DIWEDD TYMOR.** Wel, y mae diwedd tymor y colegau a'r ysgol yn y golwg yn awr. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bwb oedd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chiw i gyd ac y cech fynd oeddych wedi edrych ymlaen i'w wneud. Gwyliau hapus i chwi i gyd a gobeithio am dywydd braf a dipyn o haul. Pob lwc i bawb.



Yn ystod ystafellau
museum
statu
national

Ar 22ain Awst 1969 daeth distawrwydd i chwarel Dinorwig.

Wedi 200 mlynedd o lafur caled, caewyd y chwarel ac anfonwyd y chwarelwyr adref am y tro olaf. Byddwn yn cofio am y cau a'r effaith y cafodd ar y gymuned a'i phobol yn ein arddangosfa newydd ac mewn cyfres o ddigwyddiadau trwy'r haf.

01/07/09 - 31/01/2010

ARDDANGOSFA

DINORWIG '69 - COFIO'R CAU

17.18.19 Awst

TEITHIAU TYWYS

I'R CHWAREL

gyda Dafydd Whiteside Thomas
20.21.22 Awst

DRAMA: COFIO

Perfformiadau o ddrama gomisiwn o gwmpas
1969, Fron Haul
22 Awst (1pm - 3pm)

DIWRNOD AGORED & HEL ATGOFION

Cyfle i rannu gwybodaeth am y cau.
22 Awst (7.30pm)

CYNGERDD COFIO'R CAU

Perfformiadau gan lluo artistiaid lleol
fel Hogia'r Wyddfa, Seindorf Arian
Deiniolen a Llanrug, Cor Meibion
Dyffryn Peris, John Ogwen, Maureen Rhys
a llawer mwy...

Mae'r gwyltgarwddau i gyd AM DDIM ond rhaid trefnu
te cynnwys a llawn llaw ar gyfer y teithiau cerdded a'r
cyngordd drwy gysylltu a'r amgueddfa.

Cynhelir y cyngordd yn Ysgol Dyffryn Ogwen,
AMGUEDDFA LECHI CYMRU

LLANBERIS

☎ 01286 870630

llechi@amgueddfacymru.ac.uk



Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-V-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Corffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddach Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIDASAU, PENBLWYDD AC AGHYLSURON ARDENNIG ERAILL

**COFIO'R CAU
DINORWIG '69**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. I ddiweddu'r tymor am eleni, ac ar ddiwrnod hyfryd o haf, aeth llond bws o aelodau a chyfeillion i ymweld â Chanolfan Hanes Uwchgwyrfai lle cafwyd sgwrs gan Ifan Glyn Jones a Marian Elias ar yr hanes tu ôl i'r Ganolfan, ac yna roedd cyfle i grwydro o gwmpas yr Ardd Hanesyddol Gymunedol. Ar ôl cael paned ymlaen wedyn i Borthmadog ac yna galw yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach, am bryd o fwyd blasus cyn ei throi am adref. Talwyd diolchiadau am yr holl drefniadau gan Myra Griffith. Bydd y Clwb yn ail gychwyn ym mis Medi.

CAPEL Y CYSEGR. Cafwyd Sacrament o fedydd yn ddiweddar pan fedyddiwyd Gwydion Ifan, mab bach Lois (gynt o Tan y Cae), a John Lloyd, y teulu erbyn hyn yn byw yn Rhuthun. Braf oedd cael cwmni'r Gweinidog a nifer fawr o gyfeillion a theulu i dystio i'r achlysur.

MERCHED Y WAWR. Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i ben yn ddiweddar gydag ymweliad â Chanolfan Dreftadaeth Cae'r Gors, cartref plentyndod yr awdures Kate Roberts. Croesawyd pawb i'r Ganolfan gan Dewi Tomos ac yn dilyn gweld ffilm am hanes a bywyd Kate Roberts aeth pawb wedyn i weld yr hen adeiladau wedi eu hadnewyddu a'u hail ddodrefnu fel ag yr oeddynt. Y Stablau, Llanwnda oedd y man cyfarfod i gael pryd o fwyd,

cwmniaeth a chroeso gan Mair Price, y Llywydd.

Cyfeiriodd Mair at ddau lythyr oedd wedi dod i law, un yn sôn am y posibilrwydd o gynnal Eisteddfod yr Urdd yn Eryri yn 2012 gan estyn gwahoddiad i droi i mewn i gyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Dyffryn Nantlle ar Gorffennaf Iaf.

Annog pawb i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala oedd y llall. Ar y dydd Sadwrn cyntaf bydd y capsiwl amser yn cael ei gladdu yng Nghanolfan Cywain ac ar y dydd Mercher amgylchynir y Pafiliwn gyda 'bras' a gwahoddir pawb i fod yn rhan o'r gadwyn.

Llongyfarchwyd Falmai Owen ar ddod yn Nain i Jac, plentyn Gareth, a dymunwyd yn dda i Lynnwen sydd ar fin dathlu pen-blwydd go arbennig cyn bo hir. Diolchodd Mair Read, y Llywydd newydd, i Mair Price a'i phwyllgor am flwyddyn lwyddiannus.

CRONFA GOFFA OWEN JONES BETHEL. Mae gan Ymddiriedolwyr yr elusen uchod nawdd o hyd at £50 i'w gynnig yn flynyddol i berson ifanc o bentref Bethel sydd ar fin cychwyn gyrfa coleg.

Am fanylion pellach/ffurflen gais, cysyllter â Mrs Nia Guillemin, Pennaeth Ysgol Bethel ar :01248 670663 cyn Gorffennaf 13

LLONGYFARCHIADAU i Gavin a Sian, Ysgoldy, ar enedigaeth Anna Jen ar Mai 13, chwaer fach i Morgan.



Uchod: Plant Bethel a fu'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. (Cefn): Gwenllian Griffiths, 1af genethod 4 i 6 oed; Elen Jones: 1af genethod 7 ac 8 oed; Bedwyr Jones: 1 bechgyn 4 i 6 oed. (Blaen): Elin Jones; Lowri Jones; Elis Jones: 3ydd bechgyn 4 i 6 oed; Tomos Efans: 2il bechgyn 7 ac 8 oed.

Dde: Ifan Gwynn a fu'n fuddugol yn ras traws gwlad yr Urdd



Conwy ac Eryri i fechgyn blwyddyn 4 ar 30 Ebrill eleni. Roedd Ifan yn cynrychioli adran Bethel.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynhyrchion perodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i roddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cynhyrchion yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrig

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-olw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llundain) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Y CLWB 300. Enillwyr mis Mai oedd: £30: Miss Gina Gwyrfaï, 2 Tŷ Hen; £20: Mr a Mrs D. Greasley, Minafon; £10: Dr Huw Roberts, Liverpool House. SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad a gynhaliwyd ar 7 Mai, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Buddug Jones o Gaernarfon a'i chi tywys. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi yn egluro sut y mae y cŵn tywys yn cael eu dysgu ac wedyn sut mae'r person sy'n ddall, neu'n rhannol ddall, yn cael hyfforddiant i ddod i arfer gyda'i gilydd. Roedd pawb wedi eu synnu wrth weld mor ufudd oedd y ci. Dim ond rhoi gorchymyn iddo un waith ac roedd yn ymateb yn syth. Diolchodd y Llywydd i Mrs Jones a'r ci am ddod atom i egluro'r broses i ni mor fanwl. Enillydd y wobr, wedi ei rhoi gan Anne, oedd Nancy.

Ar 4 Mehefin, croesawyd pawb i'r cyfarfod a chyfeiriodd y Llywydd at y ddamwain yr oedd Pat wedi ci chacl, gan ddymuno gwellhad buan iddi. Hefyd i Lowri Dunn a oedd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Edrychwn ymlaen at weld y ddwy yn ôl yn fuan iawn.

Delyth Owen o Gaernarfon oedd ein gwraig wadd. Roedd Mrs Owen am roi gwers i'r aelodau ar sut i grosio. Roedd rhai ohonom yn cael hwyl reit dda arni ac craill dipyn yn araf!! Cafwyd llawer o hwyl wrth ymdrechu'n galed i wneud y 'double chain'! Roedd Mrs Owen yn amyneddgar iawn hefo ni ond tydw i ddim yn meddwl y bydd yna siôl na siwmpwr yn barod erbyn y gaeaf.

Diolchodd y Llywydd i Mrs Owen am bawn addysgiadol a hwyliog iawn. Y mis nesaf cynhelir ein trip blynyddol. Mynd i Glynllifon am de prynhawn fyddwn ni.

PRIODASAU. Dymunwn bob bendith a phriodas hapus i ddau gwpwl o'r pentref a briodwyd yn ystod y mis.

I Karen Parry, Stad Bro Waun, dymunwn bob hapusrwydd i ti a Mark Clark o Fethel ar eich priodas. Byddant yn ymgartrefu ym Mro Waun.

Yn Eglwys Betws Garmon priodwyd Louise a Kenny Griffith. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt hwythau yn eu cartref yn Pine Cottage.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Eurig a Gill Wyn, Y Frenni, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf i Anni, merch fach Catrin a'u mab, Euros. Maent wedi gwirioni ar ddod yn nain a thaid.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Wena Williams, Stad Ael y Bryn, a Nia Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, yn dathlu cyrraedd eu un ar hugain mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r dyfodol i'r ddwy ohonoch.

Dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 98 mlwydd oed y bu Miss Katie Roberts, Tref Eilian. Llongyfarchiadau mawr a chofion cynnes atoch yw ein dymuniad ni i gyd, Anti Katie. LLWYDDIANNAU

Dymunwn longyfarch ein pobl ifanc sydd yn gorffen eu cwrs coleg yr haf yma ar eu llwyddiant, a dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfa yn y dyfodol.

BEDYDD. Fore Sul, 14 Mehefin, yn Eglwys y Waun, gyda'n gweinidog, y Barch Gwenda Richards yn gweinyddu a Miss Rhian Ellis wrth yr organ, bedyddiwyd Mirain, merch fach Mererid ac Erddig Llwyd, Is Eilian. Bu Mirain a'i brawd mawr, Griff, yn blant bach da iawn drwy'r gwasanaeth.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Arnold Roberts, Stad Bryn Golau adref wedi

iddo dderbyn triniaeth pen glin yn yr ysbyty; hefyd Mrs Lowri Dunn, Trigfa, adref o'r ysbyty wedi iddi dderbyn triniaeth i'w gwddf. Bu Mr Dylan Roberts, Stad Ael y Bryn, yn yr ysbyty am gyfnod yn derbyn triniaeth i'w wddf. Hefyd bu Erin Haf, Stad Ael y Bryn, yn yr ysbyty am gyfnod. Tad, merch a thaid yn yr ysbyty ar yr un pryd.

Wrth fod yn brysus yn garddio disgynnodd Mrs Pat Parry, Ffridd Felan a thorri ei choes. Mae wedi dod adref o'r ysbyty mewn plaster caled ond yn gwella erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan i chi i gyd.

DYMUNA Pat Parry, Ffridd Felan, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion am eu caredigrwydd, y llu cardiaid, anrhegion a'r galwadau ffôn cyson yn ystod ei hanffawd o dorri ei choes.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Ieuan Hughes, Wernas, Stad Croesywaun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac hefyd at Mrs Menna McDaid, Lloches, sydd wedi dod o'r ysbyty ym Manceinion i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonoch.

CYDYMDEIMLO. Fu pentre'r Waun ddim heb ei golledion y mis hwn:

Yn dawel yn ei gartref, Bryn Difyr, wedi gwaeledd caled bu farw Mr Robin Williams, Blaen Ffridd gynt.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig, Megan, Mair ei ferch a Karen a David (llys ferch a llys

fab) a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli priod tad a thaid annwyl. Hefyd ei ddwy chwaer, Olwen a Dilys.

Yn dawel yn yr ysbyty bu farw Mr Wyn Griffith, Ger y Nant. Cydymdeimlwn â Mr Reg King a'r teulu yn eu colled drist.

Cydymdeimlwn hefyd â Janet Hughes, Porthladd, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Roy Hughes, hefyd â'i ferch, Jane, Stad Bro Waun yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Trwy ddamwain erchyll tra ar ei gwyliau yn Malta, bu farw Gaynor (Beech, Ty'n y Wern) gynt. Chwaer i Trevor Beech, Bronallt a David Beech, Rose Mount a Bronwen. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi fel teulu a chyda'i thad oedrannus, Wilfred beech, sy'n byw ym Mangor.

DYMUNA David a Trevor Beech a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am yr holl gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Gaynor, yn frawychus o sydyn tra'i bod hi ar ei gwyliau yn Malta.

GWYLIAU'R HAF. Fe fydd yn wyliau tymor yr haf yn fuan. Dymunwn wyliau hapus i bob un ohonoch. Cymerwch ofal wrth chwarae allan, blantos.

NEGES BWYSIG. Os y bydd gennych unrhyw newyddion neu stori ar gyfer yr Eco, dowch â fo drwy'r drws neu ffoniwch os gwelwch yn dda. Ddiwedd Awst y daw'r rhifyn nesaf o'r wasg. Diolch yn fawr.

Cofiwch gefnogi ein holl hysbysebwyd



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

LLANRUG

Parhad o dudalen 11

Llongyfarchiadau i Kathy Thomas, Regent House, Llanrug, ar ennill gwobr Myfyriwr y Flwyddyn yng Ngholeg Menai yn y cwrs Trin Gwallt. Cwblhaodd y cwrs gydag anrhydedd a hefyd hi enillodd y gystadleuaeth 'Hair up night at the Oscars' gan fynd drwodd i gystadleuaeth bellach yn Blackpool. Mae'n siŵr fod Siôn, Ffion, Jac a Huw yn hynod o falch o Mam.



LLONGYFARCHIADAU i Michelle Louise Roberts, Llanrug, a Dafydd Elfryn Williams o Drefor, ar eu dyweddiad ddechrau mis Mehefin. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

Mae'n braf iawn cael llongyfarch Carol Williams, Arwelfa, a Gareth Eifion Jones, Glanffynnon, ar ennill gradd B.Sc mewn Dylunio a Thechnoleg ym Mhrifysgol Bangor. Hefyd Jake Burston ar ennill B.A mewn Hanes ym Mhrifysgol Lerpwl. Dymunwn y gorau i chwi i'r dyfodol.

CAPEL Y RHOS

Oedfaon mis Gorffennaf 5 Gorffennaf: Y Gweinidog 12 Gorff: Mr. John Hugh Hughes 19 Gorff: Y Gweinidog 26 Gorff: Parch. W.R. Williams Ar Fehefin 20fed, gyda'r Parch Marcus Robinson yn gweinyddu, priodwyd Sian Angharad Hughes, Glanffynnon, a Colin Jones, Glanffynnon Bungalow. Maent wedi cartrefu yn Sŵn yr Efail ac fe ddymunwn pob hapusrwydd i'r cwpl ifanc.

DYMUNA Wendy a Myfyr, Rhiwena, Nant y Glyn, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn ystod eu profedigaeth ddiweddar o golli Mam Wendy, Mrs Peggy Swain. Diolch am yr ymweliadau, y cardiau a'r holl alwadau ffôn. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd ar gyfer Cymdeithas y Deillion.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian Angharad Jones, 2 Tal y Bont, ar ennill y Belt Du yn Karate. Hefyd ci brawd, Gwyn Lloyd Jones, ar gael ei wobrwyo fel Myfyriwr y Flwyddyn yng Ngholeg Glynllifon. Da iawn, y ddau ohonoch.

PRIODAS. Llongyfarchiadau mawr i Cerys Parry, Penterfyn, Ffordd yr Orsaf a Dewi Arthur Roberts o'r Bala ar eu priodas yn Limmasol, Cyprus. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch



BABI NEWYDD. Pob dymuniad da a llongyfarchiadau i David Morris a Donna, 19 Ffordd Glanffynnon, ar enedigaeth eu mab bach, Osian. Mab bach newydd gafodd Llywela a Bleddyn Williams

hefyd yn 18 Stad Minffordd, sef Siôn, brawd bach i Twm. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Mae'n bleser dymuno pen-blwydd hapus iawn i Mrs Persis James, Bryn Mair, ar ddathlu ei chant oed. Deallwn fod y teulu i gyd adref gyda hi ac fe gafwyd parti yn y Seiont Manor. Pob dymuniad da i chi.

Dymuniadau da hwyr i Selwyn Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn, a ddathlodd ben-blwydd arbennig mis Mai ac i Carwyn ar ei ben-blwydd yntau yn 30 mlwydd oed.

CARTREF NEWYDD. Braf yw croesawu cwpwl newydd i Lanrug, sef Jonathan Richardson (Penisarwaun) a Bethan,

i 11 Stad Minffordd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma. SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr Clwb 100 mis Mehefin oedd: £20: G. Hughes, Eithinog; £7: Mrs V. Williams, Afallon;

£5: Mrs E. Davies, Llys Alaw.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWM Y GLO.

Mae Pwyllgor yr Eisteddfod yn edrych am fwy o wirfoddolwyr i'w helpu ac hefyd am Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Pwyllgor bach ydan ni sydd yn cyfarfod rhyw bedair gwaith y flwyddyn i drefnu'r Eisteddfod, a gynhelir eleni ar nos Wener, 13 Tachwedd. Byddem wrth ein bodd pe gallech ddod i helpu. Mae'r pwyllgor nesaf yn cyfarfod ar 8 Gorffennaf yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Os ydych yn dymuno mwy o wybodaeth gallwch gysylltu â Len Brookes ar (01286) 674829.

PROFEDIGAETHAU.

Cydymdeimlwn yn arw â Mrs Wendy Parry, Rhiwena, Nant y Glyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei Mam, Mrs Peggy Swain o Blackpool. Colled fawr i chi i gyd fel teulu.

Hefyd Mrs Margaret Roberts ac Ellen a'r teulu, 6 Afon Rhos, yn eu profedigaeth hwythau o golli Mam a Nain annwyl,

Mrs Jane Elizabeth Jones (Hafan Elan gynt).

DIOLCHIADAU.

Dymuna Alice a Margaret a theulu'r ddiweddar Mrs Jane Elizabeth, Hafan Elan gynt, Jones ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd a phob cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl iawn. Diolch i Ddoctoriaid Llanberis, i Gartref Penisarwaun ac i Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig. Diolch i'r Parchg John Pritchard am ei gyfraniad didwyll yn y gwasanaeth ac hefyd i Gwynfor Jones

o E.W. Pritchard am ei wasanaeth effeithiol a phroffesiynol. Diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion hael i Ward Ogwen

a diolch i Cerid Mckinnon am baratoi'r lluniaeth yng Nghapel y Rhos.

DYMUNIADAU GORAU i holl blant y pentref sydd yn eistedd arholiadau yn awr. Gobeithio y cewch ganlyniadau boddhaol a phob dymuniad da i chi yn eich gyrfaedd dewisol.

Cofion gorau at bawb sydd ddim yn dda eu iechyd. Dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

YSTAFELLOEDD
YMOLCHI

A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090

Mobile-07894818783

Cyngerdd Patagonia

Yng Nghapel Rehoboth NANT PERIS

Nos Sadwrn 11eg. o Orffennaf

7pm.

DAFYDD IWAN

Ac Artistiaid
SYLWEDDOL ERAILL

MYNEDIAD AM DDIM

Casgliad ar y diwedd i godi arian i **SHIRLEY EDWARDS** ac **EVELYN CALCABRINI** Y ddwy farch ifanc o'r Wladfa a gafodd eu troi yn ol yn Heathrow a'u gyrru adref gan awdurdodau'r "Border Agency"

Gweso i Artistiaid
A Chantorion
Gynig Eu
Gwasanaeth

Siaradwraig wadd-Erica Roberts, Tremadog (chwaer Shirley)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
galvavddian parthnasol

NOS SUL Awst 24ain

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU Medi 3ydd

Dyddiad GOSOD

SUL Awst 30ain. 5 y phawb

Sefydliad Coffa Llanrug

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

LLWYDDIANT MAWR I BENISARWAUN. Bu dathlu mawr yn yr ysgol a'r pentref yn dilyn llwyddiant ardderchog y plant yng nghystadleuaeth y Gân Actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Aeth llond bws o'r plant a'u rhieni i lawr i'r briffddinas yn ystod y gwyliau hanner tymor i gystadlu yn erbyn saith o aelwydydd ac ysgolion bychain eraill mewn cystadleuaeth ffyrnig iawn! Roedd pawb wedi gwirioni'n lân pan gyhoeddwyd mai Ysgol Penisarwaun oedd yn llwyddiannus ac yn cipio'r wobr gyntaf, tlws hardd a gwerth £100 o adnoddau i'r ysgol. Braff oedd clywed bod Cefin Roberts, un o'r beirniaid, wrth ei fodd gyda'r perfformiad ac wedi chwerthin drwyddo a mwynhau pob eiliad. Llongyfarchiadau mawr i'r plant ac i bawb a fu'n rhan o'r gwaith. Bu'r plant yn ymarfer yn ddiwyd am wythnosau lawer ac roedd sglein arbennig i'w perfformiad.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i'r rhieni, cyfeillion a holl drigolion yr ardal a fu mor hael eu cefnogaeth i'n galluogi i anfon y plant i Gaerdydd. Rydym yn edrych ymlaen at Eisteddfod 2010 yn barod!

YSGOL GYMUNED

Twrnaint Tennis. Bu rhai o blant Bl 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y Twrnaint Tennis yn y Ganolfan Tennis dydd Mawrth, 9 Mehefin. Roedd pawb wedi cael hwyl yn chwarae yn erbyn y timau eraill o wahanol ysgolion.

Symud Dosbarthiadau

Roedd dydd Gwener, 12 Mehefin yn ddiwrnod prysur iawn yn yr ysgol. Gan fod plant Bl.6

wedi mynd i Ysgol Brynrefail am y diwrnod roedd cyfle i bawb symud i fyni i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth Meithrin yma yn y bore. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Gwasanaeth Boreol. Daeth Mr Andrew Settatee yma i gynnal gwasanaeth bore dydd Gwener, 19 Mehefin. Diolch iddo am roi ei amser i ddod atom o dro i dro.

Mabalgampau'r Urdd.

Cynhaliwyd y mabalgampau ar gacau Ysgol Syr Hugh Owen nos Lun, 22 Mehefin am 4.30 o'r gloch. Diolch i bawb gymerodd ran a llongyfarchiadau i Annia, Lois, Jordan a Sam o B.3 a 4 ar ddod yn gyntaf yn y ras

gyfnewid gymysg.

Taflu Gwayffon, Bl.3 a 4: 1af Sam, 3ydd Catrin Alaw; B.5 a 6: 3ydd Dru. Naid Hir, Bl.5 6: 1af: Jordan Eade. Mae'n braf cael dweud hefyd bod yr ysgol wedi dod yn bedwerydd allan o holl ysgolion y cylch a gymerodd ran. Gyda diolch i'r staff am eu hyfforddi ac i'r rhieni am ofalu am y plant yn ystod y gyda'r nos. *Penwythnos Glan-llyn.* Bu 12 o blant Bl 5 a 6 yn treulio penwythnos hwyliog iawn yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglanllyn o 26 i 28 Mehefin. Diolch i Mrs Carol Jones a Miss Rhian Jones am ofalu amdanynt.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen. Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys, nos Sul, 5 Gorffennaf am 6.00 o'r gloch. Bydd Côr Plant yr ysgol yn cymryd rhan a gwerthfawrogn gael eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

Ffair Lyfrau. Cynhelir Ffair Lyfrau yn yr ysgol rhwng 6 a 10 Gorffennaf. Bydd yn bosib i'r plant gael golwg ar y llyfrau yn ystod y dydd ac mae croeso i chwi, rieni, alw i mewn ar ôl ysgol dydd Llun, Mawrth a Gwener. Bydd y Ffair ar agor rhwng 3-10 a 4 o'r gloch ar y diwrnodiau hyn. Bydd y plant yn derbyn tocyn gwerth £1 tuag at y llyfr y dymunant ei brynu. Am bob llyfr a werthir byddwn yn derbyn comisiwn i brynu mwy o lyfrau i'r ysgol. Gwerthfawrogn dderbyn eich cefnogaeth i'r ffair.

Mabalgampau. Cynhelir y mabalgampau pnawn dydd Mawrth, 7 Gorffennaf am 1.00 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Mar croeso i chwi ddod draw i gefnogi'r plant.

Trip Diwedd Tymor yr Haf. Bydd plant y dosbarth Meithrin yn ymweld â Parc Coed y Sipsiwn ar ddydd Mercher, 8 Gorffennaf.

Gan fod pawb wedi mwynhau eu hunain cymaint llynedd rydym wedi penderfynu mynd â gweddill o blant yr ysgol i'r Gelli Gyffwrdd eto eleni ar ddydd Mawrth, 14 Gorffennaf. Gwyliau Haf. Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 17 Gorffennaf ac yn ailagor i'r plant ddydd Mercher, 2 Medi.

EGLWYS SANTES HELEN.

Gwasanaethau'r Cymun Bendiagaid am 11 o'r gloch, gyda Gwasanaeth Cymun Teuluol ar y Sul cyntaf o bob mis am 11 o'r gloch.

Y Fynwent. Mae gwair y fynwent yn daclus dros ben eto eleni. Fe werthfawrogir yn ddiolchgar

unrhyw rodd tuag at

y gost o'i chynnal a'i chadw.

Carnifal ac Wythnos o Weithgareddau.

Fe gynhelir y Carnifal a'r gweithgareddau eleni fel a ganlyn:

Nos Sul, 5 Gorffennaf: Cymanfa Ganu yn yr Eglwys am 6.00 o'r gloch

Nos Lun, 6 Gorff: Bingo yn Neuad yr Eglwys am 6.30 o'r gloch

Nos Fawrth, 7 Gorff: Gyrfa Chwist arbennig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch

Nos Fercher, 8 Gorff: Mabalgampau ar gae yr ysgol am 6.00 o'r gloch

Nos Iau, 9 Gorff: Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch

Nos Wener, 10 Gorff: Helfa Drysor yn cychwyn o Neuadd yr Eglwys rhwng 6 a 6.45 o'r gloch

Dydd Sadwrn, 11 Gorff: Y CARNIFAL. Fe fydd yr orymdaith yn cychwyn o faes parcio y Cartref Nyrsio am 1.30 y pnawn.

Ar y cae fe fydd perfformiad gan Fand Arian Llanrug a chlwb Kick Boxing Deiniolen. Hefyd gwahanol stondinau yn cynnwys: siop, te a choffi, cwn poeth, raffl, castell neidio ac atyniadau eraill. Fe fydd sêl cist car ac amrywiol stondinau eraill. Mae croeso i unrhyw elusen leol gofrestredig ddod â stondin ar y cae am ddim. Mynediad i'r cae fydd: am ddim i bawb mewn gwisg ffansi, fel arall £1 i oedolion a 50c i blant. Estynnir croeso i bawb o'r pentref ac ardal yr Eco gymryd rhan a mwynhau y gwahanol weithgareddau.

Dalier Sylw. Mae'r Gymanfa ar ddechrau'r Wyl eleni.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Mai oedd Mrs Bessie Williams, 1 Bron y Waun. Llongyfarchiadau i chi. **LLONGYFARCHIADAU** mawr i Dylan Wyn Roberts, 18 Bryntirion, am lwyddo yn ei gwrs yng Ngholeg Glynllifon. Pob dymuniad da iti, Dylan, i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Mathew Phillips, Tai Arthur, ar ennill gradd gyda anrhydedd mewn Fferylliaeth. Pob dymuniad da i ti, Mathew, ar dy flwyddyn brofiad mewn Fferyllfa ym Mhorthaethwy. Os bydd rhagor o newyddion braf am eraill ohonoch, gadwch i ni wybod erbyn y rhifyn nesaf.

PENODIAD CYFFROUS. Pob dymuniad da i Gwenllian Carr ar ei phenodiad yn Bennaeith Cyfathrebu gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, gan ymgymryd â'r swydd ddechrau Mehefin. Bydd Gwenllian yn gyfrifol am

hyrwyddo a marchnata cysylltiadau cyhoeddus, y Wasg, y we, ac ymchwil marchnad. Mae Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, yn croesawu ei phrofiad eang o gyfathrebu a'i dealltwriaeth o'r Eisteddfod a bydd yn gaffaeliad mawr i dim yr Eisteddfod. Pob dymuniad da, Gwenllian.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a Gorffennaf a dyma'r enillwyr:

Mehefin: Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr, Philip Jones, 8 Bryn Tirion.

Gorffennaf: Gareth Fôn, Pennaeth yr Ysgol Gymuned; Katy Williams, Tyddyn Waen.

Cynhelir Ras Peli ar nos Iau, 16 Gorffennaf i lawr llethr buarth yr ysgol. Mae aelodau'r pwyllgor yn brysur yn gwerthu'r Rhifau Peli am £1 y bêl. Gwerthwyd dros 200 y llynedd. Gobeithir gwella ar hyn hyd yn oed!! Diolch am eich cefnogaeth.

Aelodau Ysgol Sul Bosra gyda'u cyflwyniad o stori Mari Jones a'r Bala yng Nghymanfa'r Annibynwyr a'r Methodistiaid.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bu rhai o aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan ym Miri Mehefin, Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Seilo, Tregarth, bnawn Sul, 21 Mehefin. Dymunir diolch i'r rhai ag ymerodd ran gan wneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn fel arfer.

Fe fwynhaodd pawb y canu bywiog dan arweiniad Arwel Davies, Arweinydd Côr y Penrhyn ac Athro Cerdd yn Ysgol Tryfan. I gloi'r Miri paratowyd gwledd amheuthun i'r plant a'r oedolion gan aelodau Capel Seilo Tregarth. Dymunir diolch iddynt am eu croeso a'u caredigrwydd.

Bydd yr Ysgol Sul yn cael seibiant o 12 Gorffennaf hyd y Sul cyntaf ar ôl i'r ysgol ailgychwyn ym mis Medi.

Gwyliau hapus a diogel i chi, blant.

GWELLHAD. Gobeithio fod y darogan am dywydd braf yn codi calon y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

PRIODAS HAPUS. Ein dymuniadau gorau i Ynyr (mab Nant a Tegid) a Gwenllian Glyn o Gaerdydd fydd yn priodi ym mis Awst. Gobeithio y ceir haul ar y fodrwy a phob hwyl i'r ddau deulu ar y paratoi mawr.

RHIFYN NESAF O'R ECO. Daw rhifyn nesaf o'r Eco allan yn nechrau mis Medi. Cofiwch gadw cofnod o'ch newyddion a'u gyrru i Sycharth erbyn yr amser penodol.

Dymunir gwyliau dedwydd a braf i bawb ohonoch.

MAE LLEWOD LLANRUG YN RHUO



Genethod Llewod Llanrug dan 11oed, oedd yn fuddugol mewn twrnament pêl-droed ym Mostyn ar Fai 23. Enillodd y genod pob gêm, a mynd ymlaen i ennill y ffeinal 2-0 yn erbyn Kinnel Bay.

ALL Y LLEWOD RUO?

Bydd y golofn yma wedi cyrraedd y wasg cyn yr ail brawf tyngedfennol rhwng y Llewod a'r Boks draw ar y Loftusvertfeld. Mae'r gyfres eisoes wedi tanio'r dychymyg, gyda'r awgrym fod hyd at 40,000 o gefnogwyr y Llewod wedi teithio. Fel aeth y daith ymlaen yna daeth y gemau yn fwy digyfaddawd. Mae David Winter wedi fy atgoffa lawer tro nad oes maddeuant i unrhyw dim y Boks sydd yn colli ar eu tomen eu hunain. O reddf maent yn credu mewn undeb corfforol digyfaddawd.

Gwelwyd hyn yn y prawf cyntaf ble chwalwyd sgrym y Llewod yn ystod yr hanner cyntaf. Cawn weld sut hwyl gaiff y rheng flaen Gymreig yn yr ail brawf. Mae'r un mor amlwg bod doniau cefnwyr y Llewod yn drech na'r Boks gyda Jamie Roberts yn datblygu'n ganolwr gyda mwy i'w gynnig na dim ond lwmpyn mawr yn bwrw'r llinell. Datblygodd Philips fel mewnwr, a thrueni nad yw

Hook wedi datblygu digon i fod yn bartner iddo – ond fe ddaw ei gyfle. A oes gweld colled ar ôl Gavin Henson, gorfforol, ddawnus tybed? Nid yw Shane wedi tanio o gwbl. Tybed erbyn hyn, gyda'r cyflymdra yn arafu, bod ei faint yn cyfrif yn ei erbyn. Serch hynny, synnwn i ddim y gwelwn ef mewn crys prawf cyn diwedd y daith. Cyrhaeddodd y fainc am yr ail brawf. Gallasai fod yn ddiweddglo teilwng iddo fel chwaraewr rhyngwladol a wefreiddiodd cyn gymaint o dorfeidd.

Yr un seren Cymreig yw Gethin Jenkins. Dyma brof y dyfodol – yn gryf yn y sgrym, yn daclwr penigamp ac yn gyfforddus gyda'r bêl yn ei ddwylo. Cyfres glos iawn a welaf ond y Boks yn llwyddiannus. Edrychwn ymlaen i'w croesawu i Stadiwm y Mileniwm ym mis Tachwedd – union ddeng mlynedd ers iddynt fod y tîm cyntaf i Gymru eu curo yn y gêm gyntaf ar y stadiwm newydd.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Parhad o'r dudalen gefn

gôl-geidwad y tîm. Mewn 8 gêm ni ildiodd yr un gôl. Beth oedd record Van der Saar d'wedwch?

Ym Mhwllheli parhau wnaeth llwyddiant tîm dan 9 Llewod Llanrug wrth iddynt gipio'r tîws. Draw o Fochdre daeth tîm dan 16 Bethel yn glwyfedig ond

yn fuddugoliaethus. Cafwyd sawl gêm gystadleuol cyn curo tîm o Fanceinion yn y rownd derfynol. Clywais gan 'dderyn bach fod cryn gyfeiriad at ddefaid wedi ei anelu at yr hogiau ond bod hynny wedi ei dawelu gyda llafarganu Barcelona. Ysbryd y gêm. Hwnna ydi o!

GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CVSVLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recrire yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost:williamsgw@parliament.uk

UNED F3 • INTEC-FFORDD Y PARC-PARC MENAI-GWYNEDD LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

CHWARAEON

PLANNU'R EGIN?

Dros y blynyddoedd bu llawer yn petruso na fu clwb criced yn ardal Eco'r Wyddfa. Bu cysylltiad llac gyda chlwb Fron Dinas, a bu nifer eraill yn chwarae i glybiau Bethesda a Bangor. Rhoddwyd llain pob tywydd ar faes Ysgol Brynrefail a bu'r Ysgol yn chwarae ambell gêm. Y gwyn fwyaf oedd y diffyg sylw at wreiddiau'r gêm, a'i datblygiad drwy hyfforddi yn yr ysgolion cynradd. Yr hyn oedd yn galonogol drwy y cyfnod oedd y diddordeb yn y gêm drwy'r fro. Yn wir, byddai lleisiau'r fro yn amlwg eu cefnogaeth i Forgannwg - neu Glami, Glami, - ar eu safari i Fae Colwyn.

Y mae llygedyn o obaith ar y gorwel. Apwyntiwyd Gerallt Jones o Fethesda yn Gydlynedd Criced Rhanbarth y Gogledd-Orllewin. Eisoes yn dilyn cwrs i athrawon cynradd sefydlwyd cynllun monitro a hyfforddiant yn yr ysgolion.

Yn ffodus daeth hyfforddwr trwyddedig penigamp i'r ardal - o dde Affrig bell. Mae David Winter yn 28 oed ac o Johannesburg yn wreiddiol. Ef yw chwaraewr tramor clwb dinas Bangor eleni. Yn 28 oed mae ganddo ddull apelgar iawn i'r disgyblion. Eisoes mae'r ddau ohonom wedi cynnal sesiynau hyfforddi yn ysgolion Llanrug a Bethel. Y mae ymateb y plant wedi ein plesio yn arw.

Y dull a ddefnyddir yw cynllun Kwik Criced, gydag offer pwrpasol ar gyfer yr oedran.

Y pwyslais drwy'r amser i'r bechgyn a'r merched yw mwynhad. Mae'r hyfforddiant angenrheidiol mewn batïo, bowlïo a maesu yn cael ei wau i mewn i'r sesiynau. Y bwriad hefyd yw cyfeirio y rhai sy'n dangos addewid i glybiau lleol sy'n cynnal sesiynau hyfforddi i'r oedranau pwrpasol. Drwy'r clybiau hefyd mae cyfle i chwarae yng Nghynghreiriau Eryri i dimau dan 11, 13 ac 15. Mae sôn hefyd am gynnal Gŵyl Hyfforddi i'r plant ar faes clwb Bangor yn ystod gwyliau'r haf. Bydd yr ysgolion yn cael eu hysbysebu o flaen llaw.

Bu un gystadleuaeth yn barod. Yn rhanbarth Arfon, cafwyd perfformiad da iawn gan Ysgol Llanrug. Aethant drwedd i'r rownd gyn-derfynol cyn cael eu curo gan dîm profiadol Penybryn, Bethesda. Serch hynny mae'r ddau ohonom yn gweld cryn addewid yn rhai o ieuenctid y fro.

Mae David yn awyddus i ddychwelyd y flwyddyn nesaf. Ei fwriad yw cyflwyno cynllun i'r awdurdod sy'n ei alluogi i ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd. Edrychwn ymlaen i weld a fydd datblygiad. Ni allwn feio yr awydd i ateb y gofyn diamheuol yn ein calendr chwaraeon yn lleol.



David Winter gydag aelodau Bl. 6 Ysgol Llanrug



Carfan Ysgol Llanrug yn Nhwrnament Criced Arfon

Noson braf a thorf sylweddol groesawodd gewri dan 7 i faes Ysgol Gynradd Llanrug. Pob dim yn ei le ar gyfer 6pm fel arfer. Cabs y siopwr, nid y reffari yn ei elfen wrth y cownter. Y gemau yn y ddwy gynghrair dan lwyr reolaeth dau ddyfarnwr penigamp - Chris Joyce ac Aled Gibbard. Mae'r ddau yn deall plant ac yn rhan bwysig o lwyddiant y noson gan gofio fod 'siomiant' yn dod i rai o'r rhai ifanc yma. Wedi'r gemau cynghreiriol trechodd Llanrug 'A' yr hen clynion, Llanberis, o 3-0, a Bethel 'A' yn trechu eu tîm iau, Bethel 'B', o 4-0. Ymlaen i'r rownd derfynol, a chryn edrych mlaen at y gêm rhwng y ddau dîm diguro yn ystod y noson. Cafodd Bethel gôl gynnar, a chollodd Llanrug fomentwm am gyfnod. Yna ail gôl i Fethel. Yn amlwg cafwyd 'sgwrs codi calon' yn ystod yr cgwyl a Llanrug oedd tîm gorau'r ail hanner - ond heb rwydo.

Yna Callum O'Donnell gyda 'fflic' ddeheuig heibio y gôl-geidwad yn coronï'r noson i Fethel, 3-0 a Iolo yn derbyn y tlws, a medal hefyd i Iwan Jones y rhcolwr. Yna'r ddau dîm yn cael tynnu llun gyda'i gilydd. Dim rhyfedd fod yr undod bro yma yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiadau tîm Ysgol Brynrefail dros y blynyddocdd. Peidied a cholli'r undod yma.

Yn fy marn i dyma'r

gystadleuaeth orau dan 7 hyd yn hyn. I gof hefyd daw perfformiadau dau gôl-geidwad arbennig yn nhimau Deiniolen a Bethel 'B', a merch â throed chwith arbennig yn gefnwr chwith a 'chymryd corners' tîm Llanrug 'A'. Noson i'w chofio, a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

Ar yr un pryd roedd cystadleuaeth pêl-rwyd dan 10 yn cael ei chynnal. Bydd y gystadleuaeth dan 11 dan do yn sgubor Brynrefail. Diolch unwaith eto i Catrin Pritchard Jones am ei threfniadaeth trylwyr.

Er mai ond tri thîm a gafwyd roedd y cystadlu yr un mor frwd, gyda Ysgol Waunfawr yn cipio'r tlws drwy guro Ysgol Llanrug.

MWY O FRASSO

Rhaid cyfeirio at lwyddiant tri thîm lleol mewn twrnameintiau pêl-droed yn ddiweddar. Enillwyd Cwpan -9 Cynghrair Gwyrfaï gan Lanberis. Gyda 7 tîm a phawb yn chwarae ei gilydd enillodd Llanberis 2 gêm a 4 cyfartal. Yna curo Cae Glyn 2-0 tra roedd Bethel yn trechu Segontium. Hogia'r wlad yn y ffeinal a gôl Tomos Collins yn gyrru'r cwpan i fyny'r dyffryn. Rhaid cyfeirio at Iolo Llywelyn Roberts,

parhad ar dudalen 19

TLWS YR ECO

ROWND DERFYNOL DAN 7 OED



Tîmau Llanrug a Bethel wedi rownd derfynol y Tlws dan 7.

Fel pob tymor bu cryn edrych ymlaen. Er y llu o wahanol dwrnameintiau teimlaf bod rhyw falchder o hyd mewn bod yn 'Bencampwyr Bro'r Eco'. Rhaid diolch hefyd am gefnogaeth parod y clybiau ac ysgolion y fro. Llewod Llanrug oedd yn ein croesawu ar gyfer y

dan 7 a than 11 ac, am y tro cyntaf, yn frwdfrydig iawn roedd Deiniolen yn ein croesawu i'r Bwthyn ar gyfer y rhai dan 9. Oherwydd gofynion amser dim ond y dan 7 gaiff sylw y tro yma. Cawn adroddiadau o'r -9 a -11 y tro nesaf.